



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fframwaith Ymateb i Lifogydd Cymru

Rhagfyr 2016



Cymru Gydnerth
Wales Resilience

CYFLWYNIAD	2
Diben y Fframwaith	2
Llifogydd yng Nghymru	3
Mathau o lifogydd.....	4
Meintiau llifogydd	6
YMATEB I ARGYFYNGAU LLIFOGYDD	7
Sbardunau	9
Cyfrifoldebau yn ystod argyfyngau llifogydd.....	10
Trefniadau ymateb	14
Ymateb Llywodraeth Cymru.....	15
Achub o Lifogydd yng Nghymru	17
PARATOI/CYNLLUNIO AR GYFER LLIFOGYDD	19
Cynllunio ar gyfer Argyfwng	19
Cynlluniau	19
Cyfrifoldebau wrth baratoi ar gyfer argyfyngau llifogydd	20
Offerynnau Defnyddiol i Ymatebwyr a'r Cyhoedd	26
CYFATHREBU AC ADRODD.....	27
Cyfathrebiad a rhybuddion i'r cyhoedd.....	27
Cyfathrebu yn ystod digwyddiad	27
Adrodd i Lywodraeth Cymru	28
ATODIADAU.....	29
Atodiad 1: Aelodaeth Grŵp Llifogydd Cymru	29
Atodiad 2: Ymatebwyr Categori 1 a 2	30
Atodiad 3: Bwriadau strategol Grwpiau Cydgysylltu Strategol (GCS)	31
Atodiad 4: Offerynnau defnyddiol i ymatebwyr	33
Atodiad 5: Rhestr termau	40
Atodiad 6: Lefelau Ymateb Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru Gyfan.....	45

CYFLWYNIAD

Diben y Fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn esbonio ac yn crynhoi'r ymateb cyffredinol i lifogydd yng Nghymru. Fe'i bwriedir yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn ymateb cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd ac yn cefnogi'r ymateb hwnnw, ond bydd hefyd yn helpu i hysbysu'r cyhoedd am sut y mae asiantaethau ymateb yn cynllunio ar gyfer digwyddiadau llifogydd ac yn ymateb iddynt ac yn adfer ar eu hôl.

Diben y Fframwaith yw:

- dod â chynghor, canllawiau a pholisïau allweddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar ymateb i lifogydd yng Nghymru ynghyd mewn un ddogfen, er mwyn creu un pwynt cyfeirio ar gyfer asiantaethau ymatebwyr a'r cyhoedd;
- sefydlu trothwyon eglur ar gyfer trefniadau ymateb i argyfwng ar bob lefel yng Nghymru;
- cyfeirio at y systemau darogan a rhybuddio sydd ar waith;
- esbonio sut yr ydym yn ymateb ar sail amlasiantaeth i ddigwyddiad llifogydd sy'n effeithio ar Gymru;
- codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac ymateb cynllunio llifogydd; ac
- esbonio'r broses gyfathrebu a ddefnyddir cyn ac yn ystod digwyddiad llifogydd.

Dyma'r canlyniadau allweddol o waith cynllunio ymateb i lifogydd a gefnogir gan y fframwaith hwn:

- diogelu bywydau, adeiladau a'r amgylchedd rhag digwyddiadau llifogydd;
- cenedl sy'n fwy cydnherth yn erbyn digwyddiadau llifogydd yn y dyfodol;
- ymatebion i ddigwyddiadau llifogydd yr ystyrir eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon;
- dealltwriaeth well fesul holl effeithiau ehangach llifogydd; a
- gostyngiad i'r risg gyffredinol i drigolion Cymru o effeithiau digwyddiadau llifogydd.

Yr hyn nad yw wedi ei gynnwys yn y Fframwaith:

- manylion cynlluniau ymateb asiantaethau unigol neu amlasiantaeth ar y lefel leol;
- strwythurau Cymru gyfan sy'n seiliedig ar y trefniadau ymateb cyffredinol a sefydlwyd o dan Gynllun Ymateb Cymru Gyfan ond gan gynnwys amrywiadau angenrheidiol i roi sylw i'r risgiau a'r effaith benodol sy'n cael eu peri gan ddigwyddiadau llifogydd;
- nid yw'r fframwaith yn ymestyn i'r cyfnod adfer;
- mae'r ddogfen hon ar gyfer Cymru yn unig. Datblygwyd dogfennau tebyg i ymateb i lifogydd gan Defra, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Llywodraeth Gogledd Iwerddon.

Lluniwyd Fframwaith Ymateb i Lifogydd Cymru gan Grŵp Llifogydd Cymru ar ran Fforwm Cymru Gydnerth. Mae Grŵp Llifogydd Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â gweithgareddau rhybuddion llifogydd, ymateb i lifogydd ac adfer yn dilyn llifogydd ledled Cymru (gweler atodiad 1).

Mae'r ddogfen hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu gan Grŵp Llifogydd Cymru bob dwy flynedd neu'n dilyn gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau neu ymarferion, ailstrwythuro sefydliadau neu newidiadau i brosesau.

Llifogydd yng Nghymru

Mae llifogydd ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn faterion pwysig i Lywodraeth Cymru. Mae'n fygythiad cyson ond na ellir ei ragweld, a allai ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae rhagolygon cywir o systemau tywydd a'r llifogydd a all ddod yn sgil hynny yn cynnig rhagolygon cynharach o ble a phryd y gallai llifogydd sylweddol ddigwydd erbyn hyn. Fodd bynnag, mae llawer o stormydd yn dal i fod yn ddynamig eu natur a gall hyn greu heriau o ran rhagweld union amseriad ac effeithiau llifogydd ar lefel leol. Mae'n rhaid i'n gallu i ymateb i lifogydd yng Nghymru gymryd hyn i ystyriaeth.

Dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd sy'n gyfrifol am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol:

Rhagfyr 2013: *"Fy marn i yw bod y modelu hwn yn rhoi arwyddion i ni, ond, yn eithaf aml, ni all hyd yn oed y modelu mwyaf soffistigedig ragweld effaith natur yn gwbl gywir. Fe wnaeth y modelu ei hun ein galluogi i gynllunio ymateb, ond yn amlwg mae angen inni fod â'r gallu i ymateb i beth yn union sy'n digwydd, wrth iddo ddigwydd"*

Ionawr 2014: *"Roedd cywirdeb y rhagolygon wedi galluogi cymunedau i baratoi'n well cyn i'r llifogydd daro hefyd"*

Yng Nghymru, roedd y patrwm datblygu yn hanesyddol ar hyd y môr ac afonydd. Mae hyn wedi cyfrannu at y ffaith fod gan Gymru dros hanner miliwn o bobl yn byw ac yn gweithio ar ein gorlifdiroedd.

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dynodi (data 2016):

- bod 208,500 o adeiladau mewn perygl o lifogydd afon a/neu'r môr, ac mae 148,000 o'r rheini'n adeiladau preswyl.
- bod 163,000 o adeiladau (120,000 preswyl a 43,000 nad ydynt yn breswyl) mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb, ac mae rhai o'r adeiladau hyn hefyd mewn perygl o lifogydd o afonydd a/neu'r môr.

Y risg sy'n cael ei pheri gan lifogydd arfordirol yw un o'r blaenoriaethau uchaf ar y Gofrestr Risg Genedlaethol. Mae'r risg o ddigwyddiad tebyg o ran canlyniadau i argyfwng llifogydd arfordir y dwyrain ym 1953 a achoswyd gan gyfuniad o lanwau uchel, ymchwydd llanw mawr, tonnau mawr a thymhestloedd ar y tir.

Mae profiadau yn y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r bygythiad cynyddol o lifogydd, yn enwedig o gwmpas ein hafonydd, ein morlin ac o ganlyniad i lifogydd dŵr wyneb.

Wrth i ni weld newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, gallwn ddisgwyl gweld newidiadau i'n tywydd yn y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys:

- hafau poethach a sychach;
- gaeafau mwy mwyn a gwlypach;
- cynnydd i amllder stormydd;a
- cynnydd i arddwysedd digwyddiadau glawiad.

Bydd y newidiadau hyn yn arwain at berygl cynyddol o lifogydd a chynnydd yn lefel y môr.

Er y gellir lliniaru'r risgiau o lifogydd trwy adeiladu, cynnal a gwella amddiffynfeydd, ni ellir fyth cael gwared ar y risg yn llwyr. Bydd y ffactorau uchod yn arwain at fwy o berygl o lifogydd difrifol ac yn rhoi ein seilwaith perygl llifogydd (amddiffynfeydd a gorsafoedd pwmpio, er enghraifft) o dan bwysau cynyddol o fethu neu o gael eu goresgyn.

Mae angen i ni sicrhau bod ein systemau yn y dyfodol yn gweithredu'n effeithiol pan fydd gofyn iddynt, ac i fod â pharatoadau ar waith pan fydd y systemau hynny'n cael eu gorchfygu gan natur.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2016) yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i roi ystyriaeth i les cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ym mhob penderfyniad a wneir.

Mathau o lifogydd

Mae llifogydd afon (afonol) yn digwydd pan nad yw cwrs dŵr yn gallu dal y dŵr sy'n mynd i mewn i'r system mwyach, ac yn gorlifo. Gall hyn gael ei achosi gan:

- lawiad uchel neu ddwys;
- rhwystr mewn cyrsiau dŵr;
- methiant neu ddifrod i argloddiau/amddiffynfeydd sianel yr afon;
- eira'n toddy;
- cronfeydd dŵr yn gorlifo (gweler llifogydd cronfeydd dŵr isod hefyd);
- neu gyfuniad o unrhyw rai o'r ffactorau hyn neu bob un ohonynt.



Ffigur 1: Llifogydd yn Llanellwyr, Sir Ddinbych, Ionawr 2012 (Llun gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Mae lifogydd dŵr wyneb (glawog) yn digwydd pan fo arwynebau anhydraidd, llethrau serth neu bridd soeglyd yn atal dŵr glaw rhag mynd i mewn i'r tir, gan orfodi iddo gronni, llifo dros dir a chasglu ar dir isel. Gall ddigwydd mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Gall dŵr wyneb ffo symud pridd a gwrteithwyr a llifo i systemau draenio. Yn aml, nid yw'r systemau hyn wedi eu dylunio i ymdopi â chyfnodau hir neu drwm o lawiad ac maent yn atal dŵr rhag mynd i mewn, yn cael eu rhwystro ac yn gorlifo yn y pen draw. Gall dŵr ffo sy'n mynd yn syth i afonydd hefyd arwain at lifogydd sydyn a llygredd. Mae ffyrdd ar draws llawer o Gymru yn arbennig o agored i lifogydd dŵr wyneb o ganlyniad i ddŵr ffo yn ystod cyfnodau o lawiad lle mae'r tir cyfagos yn soeglyd. Gall topograffi serth sawl rhan o Gymru hefyd arwain at lifoedd dŵr wyneb cyflym trwy gymunedau, sy'n difrodi adeiladau a strwythurau.

Mae lifogydd arfordirol fel rheol yn digwydd pan fydd llanwau uchel yn cyfuno â thywydd garw sy'n achosi ymchwydd storm a thonau mawr. Mae afonydd llanw ac aberoedd yn arbennig o agored pan fydd llanwau uchel yn cyfuno â lefelau afon uwch. Bydd newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr yn golygu y bydd y perygl hwn yn parhau i gynyddu.



Ffigur 2: Stormydd arfordirol a gorlifo yn Aberystwyth (Llun gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Mae lifogydd dŵr daear fel rheol yn digwydd ar ôl cyfnodau hir o lawiad dwys. Mae'n digwydd o ganlyniad i ddŵr yn codi o'r creigiau islaw, neu o bistyllau. Mae hyn yn achosi i'r lefel trwythiad godi'n uwch na lefelau arferol ac i fyny i'r wyneb yn aml.

Mae lifogydd carthffosydd yn digwydd pan fo gollyngiad sydyn neu fawr o garthffos pan gaiff capasiti'r system ei orlethu. Mae hyn yn arbennig o gyffredin mewn ardaloedd trefol lle mae glawiad yn mynd i mewn i rwydweithiau carthffosiaeth yn gyflym iawn ar hyd mannau palmantog fel ffyrdd a llwybrau troed.

Mae llifogydd cronfeydd dŵr yn digwydd pan fo storfeydd cronfa ddŵr uwchben y ddaear yn methu ac mae llawer iawn o ddŵr yn cael ei ryddhau neu pan fydd digwyddiad eithafol iawn yn arwain at orlethu capasiti goferydd a gorlifo dros ben y strwythur. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd llifogydd o gronfeydd dŵr, gall y canlyniadau fod yn drychinebus ac ni ellir eu rhagweld bob amser.

Meintiau Llifogydd

Mae llifogydd lleol yn dynodi nifer fach o ddigwyddiadau llifogydd ynysig neu leol a allai ddigwydd ar draws ardal. Gallai llifogydd lleol sylweddol ddigwydd yn ystod storm o daranau yn yr haf ac er mai dim ond ardal fach sy'n cael ei heffeithio. Gallai'r effeithiau fod mor ddifrifol â nentydd bach yn codi'n gyflym, llifogydd i adeiladau a seilwaith, ac felly, mae'r digwyddiad yn lleol ond gallai'r effeithiau fod yn sylweddol.

Gallai effeithiau llifogydd eang a/neu ddifrifol gynnwys llifogydd arfordirol ar hyd morlin, glannau afon yn cael eu gorchfygu neu lifogydd glawog mewn sawl lleoliad ar draws un neu fwy o awdurdodau lleol. Gallai hyn gynnwys effeithiau ar adeiladau, ffyrdd, rheilffyrdd a seilwaith cyfleustodau ac i adeiladau cyhoeddus. Cyfeirir at lifogydd difrifol yma hefyd gan fod y termau weithiau'n cael eu defnyddio gyda'i gilydd lle ceir llifogydd sylweddol neu barhaus sy'n peryglu bywydau mewn sawl ardal. Gellir hefyd cyfeirio at lifogydd difrifol pan fydd effeithiau sylweddol mewn un lle ond, oherwydd eu maint, y byddant yn dal i gael effaith ehangach ar bobl a seilwaith.

Astudiaeth Achos

Llifogydd arfordirol Ionawr 2014: Profwyd ein hymateb cydgysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ar raddfa fawr yng Nghymru a gweithiasant yn dda yn yr ymateb i'r llifogydd arfordirol eang ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014. Bu llifogydd eang o gwmpas holl arfordir Cymru ym mis Ionawr 2014 o ganlyniad i lanwau uchel wedi'u cyfuno ag ymchwydd storm a thymhestloedd. Arweiniodd hyn at lifogydd mewn 150 o adeiladau, cynghorwyd y dylid gwagio mwy na 1000 o adeiladau a bu gwerth dros £8 miliwn o ddifrod i amddiffynfeydd arfordirol. Dros gyfnod o 5 diwrnod, cyflwynwyd 21 o hysbysiadau llifogydd – byddwch yn barod, 103 o rybuddion llifogydd a 6 rhybudd llifogydd difrifol. Teimlwyd effeithiau ledled y wlad ac ar draws bob un o'r pedair ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, gan arwain at ymgynnull pob un o'r pedwar Grŵp Cydgysylltu Strategol. Darparodd y Swyddfa Dywydd a Chyfoeth Naturiol Cymru gyngor a chefnogaeth i'r holl Fforymau a Llywodraeth Cymru ar yr amodau a'r rhagolygon tywydd a llifogydd parhaus.



Ffigur 3: Stormydd yn Aberystwyth Ionawr 2014

YMATEB I ARGYFYNGAU LLIFOGYDD

Mae llawer o ddigwyddiadau llifogydd yn lleol eu natur ac mae'r ymateb i'r rhain wedi'i leoli'n lleol felly. Gall y rhan fwyaf o ddigwyddiadau o'r fath gael eu rheoli ar lefel leol gan ymatebwyr lleol; fodd bynnag, bydd maint a natur rhai digwyddiadau llifogydd yn gofyn am gymorth strwythur rheoli amlasiantaeth ehangach ar gyfer cydgysylltu eu hymateb ar y cyd yn effeithiol. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd rheoli digwyddiadau llifogydd yn seiliedig ar y strwythurau rheoli digwyddiadau cyffredinol trwy strwythur haenau ar gyfer cydgysylltu'r ymateb amlasiantaeth h.y. Strategol (Aur), Tactegol (Arian), a Gweithredol (Efydd) fel y trafodir yn ffigur 4 isod.

Grŵp Cydgysylltu Strategol (Aur)
Lleoliad – Canolfan Cydgysylltu Strategol.
Aelodau – Prif/Uwch swyddogion o'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyfleustodau, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill fel sy'n briodol.
Rheolaeth Dactegol (Arian)
Lleoliad – Yn agos at y digwyddiad / argyfwng / lleoliad i gael ei bennu gan yr ymatebwyr.
Aelodau – Uwch Reolwyr / rheolwyr tactegol – gweithredu strategaeth a pholisi.
Cynghorwyr arbenigol fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyfleustodau, a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill fel sy'n briodol.
Rheolaeth Weithredol (Efydd)
Lleoliad – yn y man neu mewn lleoliadau eraill e.e. cymunedau a effeithiwyd, canolfan orffwys i oroeswyr, rheoli traffig.
Adnoddau'n cael eu lleoli a thasgau'n cael eu cyflawni gan reolwyr gweithredol ac ymatebwyr cyntaf (gweithwyr tîm ymateb).
Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaethau Ambiwylans, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill sy'n rhan o'r ymateb gweithredol.

Ffigur 4: Strwythur haenau ar gyfer cydgysylltu ymateb amlasiantaeth yn dangos y grwpiau a lleoliadau'r gwahanol lefelau ymateb amlasiantaeth i ddigwyddiad llifogydd.

Ymateb Gweithredol (Efydd)

Yr ymateb uniongyrchol i'r digwyddiad llifogydd ar lawr gwlad yw'r ymateb gweithredol, ac mae'n digwydd yn yr ardal(oedd) sydd wedi'u heffeithio.

Bydd y personél cyntaf sy'n cyrraedd y man yn cymryd camau ar unwaith i asesu natur a maint y llifogydd. Daw comanderiaid gweithredol yn gyfrifol am weithredu cynllun tactegol y comander tactegol yn eu hardaloedd daearyddol neu faes gweithredol o gyfrifoldeb.

Ymateb Tactegol (Arian)

Pan fydd llifogydd eang yn digwydd, neu y rhagwelir digwyddiad sylweddol posibl, gellir sefydlu Grŵp Cydgysylltu Tactegol (Grŵp 'Arian') mewn pencadlys Isadrannol yr Heddlu priodol, neu safle addas arall i gydgyssylltu'r ymateb.

Ei ddiben yw sicrhau bod y camau a gymerir ar y lefel weithredol yn gydgyssylltiedig, yn gydlynol ac wedi'u hintegreiddio er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl. Gan weithio mewn cydgysylltiad, bydd comanderiaid tactegol yr asiantaethau ymatebwyr yn:

- pennu blaenoriaethau ar gyfer dyrannu'r adnoddau sydd ar gael;
- cynllunio a chydgyssylltu sut a phryd y bydd tasgau'n cael eu cyflawni;
- cael gafael ar adnoddau ychwanegol os oes angen;
- asesu risgiau sylweddol a defnyddio hyn i hysbysu'r broses o neilltuo tasgau i gomanderiaid gweithredol;
- sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd a phersonél; a
- cyfathrebu effeithiau ac ymateb i Lywodraeth Cymru.

Ymateb Strategol (Aur)

Mewn ymateb i ddigwyddiad llifogydd difrifol, gellir sefydlu Grŵp Cydgysylltu Strategol (GCS) neu 'Grŵp Aur' ym mhencadlys yr Heddlu i reoli'r digwyddiad yn strategol a rheoli'r ymateb. Bydd hyn yn cael ei ategu gan y Ganolfan Cydgysylltu Strategol (CCS) a sefydlir yn yr un lleoliad. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu CCS wedi'u hymsefydlu mewn cynlluniau Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Amlinellir aelodaeth o'r grŵp hwn yn ffigur 4. Bydd asiantaethau'n cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd amlasiantaeth dros y ffôn os bydd angen.

Amlinellir cyfres gyffredinol o fwriadau strategol GCS yn atodiad 3, ond efallai y bydd y rhain yn amrywio rhyw fymryn a byddant yn cael eu nodi yn eu cynlluniau ymateb eu hunain.

Mae rhagor o wybodaeth am yr haenau rheolaeth ar gael ar wefan Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys: <http://www.jesip.org.uk/command>


Gwneir y penderfyniad i uwchraddio o Efydd i Arian i Aur gan yr ymatebwyr Categori 1 pan fyddant yn teimlo ei fod yn angenrheidiol.



Ffigur 5: Llifogydd yn Sain Ffagan, Caerdydd (Llun gan Gyngor Caerdydd)

Sbardunau

Mae Ffigur 6 isod yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sefydliadau sy'n ymateb i lifogydd o lefel leol hyd at ddigwyddiadau llifogydd ar raddfa genedlaethol. Penderfynir ar lefel gweithredu, gweithgarwch ac uwchraddio ymateb gan y sefydliadau sy'n ymateb i'r digwyddiad.



Ffigur 6: Canllaw ar weithgareddau a threfniadau ymateb ar gyfer digwyddiad llifogydd yng Nghymru. Mae'r trefniadau cyffredinol hyn yn hyblyg a gellir eu haddasu i'r lleoliad a'r digwyddiad. Er enghraifft, gellir gwagio mannau fel mesur rhagofalus cyn y llifogydd. Bydd penderfyniadau am bwyntiau sbardun yn cael eu cytuno rhwng asiantaethau.

Sbardunau Uwchraddio

Bydd cynlluniau Awdurdodau Lleol yn cael eu gweithredu a'u hisraddio ar unrhyw adeg yn unol â'r amgylchiadau a threfniadau lleol a gytunwyd fel y nodir yn y cynlluniau. Datblygir ac arweinir y cynlluniau amlasiantaeth lleol hyn gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

Bydd y penderfyniad pa un a ddylid gweithredu Cynllun Ymateb Cymru Gyfan¹ (yn hytrach nag ymatebion lleol sy'n parhau i weithredu yn unol â threfniadau lleol) yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag ymatebwyr Categori 1 neu 2 â chyfrifoldebau arweiniol neu uwch yn yr argyfwng (ac mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU pan fo hynny'n briodol).

Bydd y penderfyniad i uwchraddio neu israddio ymateb Cymru gyfan yn cael ei wneud gan y Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl neu Bwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu rhaeadu i bob asiantaeth gan Lywodraeth Cymru.

Bydd ymateb hyblyg i argyfyngau yn seiliedig ar yr amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd. Er enghraifft, mewn argyfwng sy'n effeithio'n bennaf ar un ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Grŵp Cydgysylltu Strategol (GCS) dan sylw i asesu a fyddai sefydlu'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) a ffurfio'r GCS/Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru yn cynorthwyo'r ymateb.

Cyfrifoldebau yn ystod argyfyngau llifogydd

Fforwm Lleol Cymru Gydnerth

Ceir pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru; Gwent, De Cymru, Dyfed Powys a Gogledd Cymru, pob un â'i gynlluniau a'i drefniadau a gytunwyd ar gyfer ymateb i lifogydd a gwaith adfer ar eu hôl.

Unwaith y bydd digwyddiad llifogydd, gellir sefydlu canolfannau tactegol amlasiantaeth, a fynychir gan staff priodol o'r asiantaethau ymateb. Bydd y swyddogion tactegol hyn yn trafod gyda'u sefydliadau priodol a allai leoli staff gweithredol ar lawr gwlad wedyn.

Os bydd y digwyddiad yn gofyn am arweinydd strategol, bydd grŵp cydgysylltu strategol y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cael ei sefydlu i gynnig cymorth, cyfeiriad strategol a chyfathrebiad â Llywodraeth Cymru trwy'r blwch negeseuon e-bost argyfyngau llifogydd a'r tîm cydnerthedd. Bydd penderfyniadau am adnoddau, cyd-gymorth, rheoli'r cyfryngau a blaenoriaethau yn cael eu rheoli gan uwch swyddogion sefydliadau amlasiantaeth a gynrychiolir yn y grŵp hwn.

Bydd Grŵp Cydgysylltu Strategol y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cyfathrebu â Llywodraeth Cymru drwy'r blwch negeseuon e-bost argyfyngau llifogydd a'r tîm cydnerthedd.

Yn dilyn digwyddiad llifogydd amlasiantaeth, bydd y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, trwy Gydgyssylltydd y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth fel rheol, yn trefnu ôl-drafodaeth amlasiantaeth, ac yna'n rhannu a chyhoeddi argymhellion o'r ôl-drafodaeth yn unol â hynny. Bydd grŵp tywydd garw'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth fel rheol yn gyfrifol am gwblhau unrhyw gamau gweithredu perthnasol sy'n deillio o adolygiadau o'r fath, er y gellir cynnwys Is-grwpiau eraill y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

Un argymhelliad yn dilyn Ymarfer Megacyma ym mis Mawrth 2015, oedd ystyried yr ymateb i lifogydd sy'n croesi ardaloedd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU â Fforymau Lleol

¹ <http://walesresilience.gov.uk/behindthescenes/walesresilience/panwalesresponseplan/?lang=cy>

Cymru Gydnerth ledled Cymru, a bydd y Fframwaith hwn yn cael ei ddiweddarau ar ôl i safbwynt gael ei gytuno.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ystod digwyddiad llifogydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am:

- fonitro lefelau glawiad, afonydd a llanwau;
- gwneud rhagolygon o lifogydd afon ac arfordirol posibl hyd at 5 diwrnod ymlaen llaw ar lefel gymunedol, gan ddefnyddio rhagolygon glawiad ac arfordirol y Swyddfa Dywydd a modelau darogan llifogydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru;
- cyfrannu at y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ar gyfer Cymru a Lloegr, gan gynnwys cytuno ar y statws risg ar gyfer siroedd Cymru;
- sefydlu a chadeirio cyfarfodydd y Gwasanaeth Cynghori ar Llifogydd gyda phartneriaid Fforymau Lleol Cymru Gydnerth cyn llifogydd a ragwelwyd er mwyn rhannu gwybodaeth a chytuno ar unrhyw uwchraddio;
- defnyddio'r rhagolygon hyn ac arsylwadau lleol i gyflwyno rhybuddion llifogydd yn uniongyrchol i'r cyhoedd a phartneriaid proffesiynol gan ddefnyddio Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol;
- cyflwynir Rhybuddion Llifogydd Difrifol mewn trafodaeth â'r Swyddfa Dywydd, Gwasanaethau Tân ac Achub, awdurdodau lleol perthnasol a'r Heddlu fel sy'n briodol;
- darparu gwybodaeth i'r cyfryngau fel sy'n briodol er mwyn rhybuddio'r cyhoedd am berygl o lifogydd sy'n datblygu a'r hyn y gallant ei wneud i fod yn barod am lifogydd;
- darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru trwy 'Adroddiadau Sefyllfa' (SitReps) er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion Cymru a swyddogion am effeithiau a ragwelir a gwirioneddol yn ogystal ag ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru;
- darparu ymateb brys gweithredol priodol i amddiffynfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac asedau gweithredol eraill Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys lleoli timau ar-safle;
- cynnal ymateb Rheoli Digwyddiadau Llifogydd mewnol yn ystod llifogydd eang, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynnal ei ymateb Rheoli Digwyddiadau Llifogydd mewnol gan gynnwys cymorth Rheolaeth Arian a diweddariadau gwybodaeth am rybuddion llifogydd fel sy'n briodol.

Mae Cyfoeth Naturiol yn cyflawni hyn trwy sefydlu Ystafelloedd Digwyddiad ar lefelau lleol a chenedlaethol cyn ac yn ystod llifogydd, wedi'u cefnogi gan restrau o swyddogion dyletswydd sy'n cyflawni rhaglen o hyfforddiant ac ymarfer er mwyn hwyluso darpariaeth y dyletswyddau rheoli digwyddiadau llifogydd hyn.

Awdurdodau Lleol

Mae gan awdurdodau lleol swyddogaeth arwyddocaol i'w chyflawni o ran ymateb i lifogydd o fewn eu ffiniau. Bydd y swyddogaeth hon yn amrywio rhwng awdurdodau ac yn cael ei llywio gan natur y digwyddiad. Yn dibynnu ar y sefyllfa, efallai y bydd angen sefydlu ystafell Rheoli a Chydgysylltu'r Cyngor.

Dyma'r prif feysydd lle gallai'r awdurdod lleol chwarae rhan ynddynt:

- Cynorthwyo'r gwasanaethau brys ac asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan trwy weithredu gwasanaethau'r Cyngor a fydd yn rhoi eu trefniadau mewnol eu hunain ar waith, fel Priffyrdd, Draenio ac at;

- Gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth i gymunedau lleol yn ystod argyfwng ac yn eu hadferiad;
- Parhau i ddarparu gwasanaethau arferol ar lefel briodol.

Gellir sefydlu timau ymateb i ddigwyddiad mewn Awdurdodau Lleol yn swyddfeydd yr awdurdod sy'n cael ei effeithio mewn ymateb i lifogydd lleol yn ardal yr awdurdod i gydgyssylltu ymateb Gwasanaethau'r Cyngor ac asiantaethau partner.

Pan fo effeithiau'n fwy eang, bydd awdurdodau lleol yn sefydlu neu'n cynnal eu Timau Ymateb i Ddigwyddiad i gydgyssylltu eu hymateb adrannol a chorfforaethol eu hunain, ond bydd ganddynt gynrychiolydd rheolaeth Arian (tactegol) amlasiantaeth ac, os oes ei angen, cynrychiolydd Aur (Strategol) amlasiantaeth i weithredu fel y canolwr ar gyfer holl gyfathrebiad yr awdurdod lleol.

Gwasanaethau Brys

Mae gan yr holl wasanaethau brys gynlluniau tywydd garw a fydd yn cael eu mabwysiadu yn ôl y gofyn. Cedwir Cofrestr Asedau Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymateb gweithredol i lifogydd ym mhob Ystafell Reoli Gwasanaethau Brys ac ym mhob Fforwm Lleol Cymru Gydnerth – mae hyn yn galluogi'r Ystafelloedd Rheoli hyn i nodi asedau lleol a lleoli'n unol â hynny. Bydd yr ymateb amlasiantaeth drwy'r Grŵp Tactegol o ran effeithiau eang.

Yn ystod digwyddiad llifogydd, swyddogaeth yr Heddlu yw:

- Cydgysylltu gweithredoedd yr holl asiantaethau sy'n cyflawni swyddogaeth yn ystod digwyddiad llifogydd mawr;
- Rheoli'r fan ar ei therfynau allanol trwy osod pwyntiau cordres a sefydlu system rheoli traffig mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol;
- Sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i achub bywydau gydag ymatebwyr eraill, gan gydgyssylltu prosesau gwagio adeiladau a gwybodaeth i'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, yn ystod digwyddiad llifogydd, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn ymateb i lifogydd eang, yn achub o lifogydd dŵr wyneb lleol ac yn achub o ddŵr mewndirol arall.

Yng Ngwasanaethau Ambiwylans Cymru, bydd gwybodaeth yn ystod llifogydd yn cael ei rhaeadru'n fewnol a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Swyddfa Dywydd ac asiantaethau eraill fel sy'n briodol. Bydd rhybuddion yn cael eu cynnwys mewn systemau mewnol.

Mewn digwyddiadau pan nad yw'r gwasanaethau brys yn cydgysylltu ymateb amlasiantaeth, bydd cydgysylltiad o'r fath yn cael ei bennu yn unol â threfniadau lleol.



Ffigur 7: ymateb i lifogydd yn Llanelwy, Sir Ddinbych (Llun gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Cyfleustodau

Bydd cwmnïau cyfleustodau yn asesu'r effaith debygol i asedau seilwaith yn seiliedig ar y rhybuddion llifogydd a chanllawiau llifogydd a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn ystyried yr adnoddau staff sy'n ofynnol i ymateb. Mae cwmnïau cyfleustodau yn cysylltu ag ymatebwyr yn gynnar yn ystod digwyddiad llifogydd, yn enwedig pan fo problemau hysbys ac yn datblygu gydag unrhyw seilwaith allweddol.

Dŵr Cymru Welsh Water

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn ymateb i bob digwyddiad llifogydd carthffosiaeth cyn gynted â phosibl ac o fewn 4 awr o gysylltu â hwy fel rheol.

Mae carthffosydd wedi'u dylunio i ymdopi â'r mwyafrif llethol o stormydd, ond weithiau gall glawiad fod mor drwm ei fod yn gorlethu'r system. Pan fydd hyn yn digwydd, gall carthion orlifo o dyllau caead a thyllau carthffos ac achosi llifogydd i dir a gerddi.

Pan gaiff amodau o'r fath eu rhagweld gan y Swyddfa Dywydd neu Gyfoeth Naturiol Cymru, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn sicrhau y caiff data glawiad eu monitro er mwyn nodi'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio a sicrhau bod criwiau ychwanegol yn barod i ymateb i unrhyw adroddiadau o lifogydd.

Pan fydd carthion wedi mynd i mewn i gartref, garej integrol neu dai allan yn ystod llifogydd, bydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn cynorthwyo gyda'r gwaith glanhau, gan gynnwys cael gwared ar garpedi, dodrefn ac eitemau eraill a ddifrodwyd. Pan fydd lawntiau neu erddi'n cael eu heffeithio, bydd DCWW yn cynorthwyo gyda'r gwaith glanhau ac yn eu disodli os byddant wedi eu halogi yn ddifrifol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadw cyngor a chanllawiau ar effeithiau llifogydd ar iechyd y cyhoedd yn barhaus. At ddibenion cysondeb, mae'r canllawiau'n cyd-fynd â'r rhai a gyhoeddir gan Public Health England (PHE). Bydd yr angen am gyngor penodol yn cael ei lywio gan natur y digwyddiad a'r ymateb cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Cyngor Iechyd: Gwybodaeth gyffredinol yn dilyn llifogydd;
- Sut i lanhau'n ddiogel yn dilyn llifogydd;
- Llifogydd ac iechyd meddwl: gwybodaeth hanfodol i ymatebwyr rheng flaen;

- Gwybodaeth gyffredinol am iechyd meddwl yn dilyn llifogydd ;
- Ymdopi heb ddŵr o'r prif gyflenwad.

Mae'r cyngor ar gael o dudalennau gwe 'Tywydd Eithafol' [gwefan](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Hefyd, mae'r ddogfen "Tywydd Eithafol Rhybuddion a Chyngor Iechyd y Cyhoedd i Gymru² a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015, yn cynnig ffynhonnell wedi'i chydgrynhoi o rybuddion a chyngor iechyd y cyhoedd ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol (gan gynnwys llifogydd).

Trefniadau ymateb

Mae gan bob ymatebwr Categori 1 a 2 (a ddiffinnir yn atodiad 2) eu cynlluniau eu hunain ar waith i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd. Bydd yr awgrym gyntaf o ddigwyddiad posibl drwy'r Ganolfan Darogan Llifogydd trwy gyflwyno Datganiadau Cyfarwyddyd Llifogydd sy'n cynnig asesiad o berygl o lifogydd ar lefel sirol ar gyfer pob ffynhonnell o lifogydd, am hyd at 5 diwrnod i'r dyfodol.

Gallai hyn arwain at gynnal trafodaethau anffurfiol i ystyried effeithiau lleol a threfniadau y gallai fod eu hangen i ymateb os oes angen. Mae angen i'r trefniadau hyn fod yn hyblyg er mwyn ymgorffori datblygiadau yn y dyfodol wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

Bydd cyflwyno Datganiadau Cyfarwyddyd Llifogydd, hysbysiadau Llifogydd – Byddwch yn Barod a Rhybuddion Llifogydd, yn unigol neu ar y cyd, yn sbarduno trafodaethau mwy ffurfiol, gan gynnwys trefnu telegynadledau'r Gwasanaethau Cyngori ar Lifogydd Cenedlaethol a Lleol pan fydd perygl uwch o lifogydd (fel rheol, ond nid yn unig, pan fydd un neu fwy o siroedd yng Nghymru yn ambr neu'n goch yn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd).

Bydd y trafodaethau hyn yn ystyried a yw effaith y digwyddiad a ragwelir yn cyfiawnhau gweithredu strwythur ymateb ffurfiol fel y disgrifiwyd yn gynharach (ffigur 4). Dylid gweithredu'r ymateb ffurfiol yn gynnar ar sail ragofalus pan fydd perygl o lifogydd difrifol.

Ar yr adeg hon, bydd ymateb gweithredol gan ymatebwyr perthnasol yn yr ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio yn cychwyn. Gallai hyn gynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru – monitro, rhagweld, archwilio asedau, cyflwyno hysbysiadau Llifogydd – Byddwch yn Barod a Rhybuddion Llifogydd, ymgysylltu â'r cyfryngau
- Awdurdod Lleol – archwilio ei asedau ei hun, cyfathrebu â chymunedau
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth – paratoi, cysylltu â swyddogion/staff
- Gwasanaethau Brys – paratoi, archwilio asedau
- LIC – trafod yr effeithiau posibl gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol neu gyfleustodau, adroddiadau Gweinidogol, trafod â Llywodraeth y DU yn ôl y gofyn.

Mewn ymateb i lifogydd gwirioneddol, caiff gweithgareddau gan ymatebwyr eu nodi o dan yr adran cyfrifoldebau uchod.

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/281480>

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod angen diweddariadau ar effeithiau a pherygl pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, awdurdodau lleol neu ar y cyd trwy reolaeth Arian (tactegol) neu Aur (strategol) os byddant wedi eu sefydlu.

Mae rhagor o wybodaeth am Ymateb i Argyfwng ac Adfer ar ei Ôl ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet³.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Tîm Cymru Gydnerth sy'n arwain ac yn hwyluso ymateb Llywodraeth Cymru i argyfyngau sifil. Mae'n meithrin ac yn cynnal cysylltiadau â chynllunwyr brys mewn awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a chwmnïau cyfleustodau yn ogystal ag Adrannau Llywodraeth eraill, gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU er mwyn cydgysylltu ymatebion i argyfyngau yng Nghymru.

Y tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol sy'n gyfrifol am bolisi perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Yn ystod llifogydd, a nes bod Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) wedi'i sefydlu, mae'r tîm yn gyfrifol am:

- sicrhau bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac adrannau allweddol eraill yn cael eu briffio a'u diweddaru am y cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd;
- cydgysylltu ymweliadau Gweinidogol pan fo hynny'n briodol;
- cynghori a briffio tîm cyfryngau/cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tîm Cydnerthedd yn rhoi cymorth yn ystod llifogydd ac yn helpu i gydlynnu'n ehangach rhwng adrannau'r Llywodraeth.

Caiff timau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ddarparu crynodebau ar wahân am yr effaith ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, yn ôl yr angen, a'u rhannu â'r Tîm Cydnerthedd a'r Tîm Llifogydd.

Mae timau cydnerth Cymru a llifogydd yn derbyn gohebiaeth reolaidd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, y Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd, gan gynnwys Datganiadau Cyfarwyddyd Llifogydd a Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol. Os bydd y rhain yn awgrymu bod llifogydd yn debygol o ddigwydd, bydd swyddogion yn trafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa a gwneud rhagolygon lleol o lifogydd afon ac arfordirol. Yn seiliedig ar adroddiadau a briffiau ar ddigwyddiadau llifogydd a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu difrifoldeb y digwyddiad ac yn penderfynu ar eu trefniadau monitro neu ymateb eu hunain.

Bydd timau Cymru Gydnerth a Llifogydd Llywodraeth Cymru angen adroddiadau a diweddariadau ar y sefyllfa yn aml trwy gydol digwyddiad llifogydd difrifol neu eang fel y gallant friffio Gweinidogion y Cynulliad yn ddibynadwy, a Swyddfa Cabinet y DU yn ôl y gofyn.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/emergency-response-and-recovery>

Trwy gydol unrhyw ddigwyddiad llifogydd, bydd y timau'n parhau i asesu'r sefyllfa yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, y Swyddfa Dywydd/y Ganolfan Darogan Llifogydd, awdurdodau lleol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac Ymateb Tactegol/Strategol pan fyddant wedi eu sefydlu. Gall tîm Cymru Gydnerth weithredu Cynllun Ymateb Cymru Gyfan pan fydd angen.

Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru)

Bydd sefydlu un neu fwy o Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn sbarduno Lefel 2 Cynllun Ymateb Cymru Gyfan (gweler atodiad 4) a bydd y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn cael ei gweithredu naill ai'n llawn neu'n rhannol yn dibynnu ar y digwyddiad.

Swyddogaeth y Ganolfan Cydgysylltu Strategol (Cymru) yw:

- Cydgysylltu'r broses o gasglu a rhannu gwybodaeth ar draws Cymru;
- Sicrhau llif effeithiol o gyfathrebu rhwng lefelau lleol, Cymru gyfan a'r DU, gan gynnwys cydgysylltu adroddiadau i lefel y DU ar yr ymateb a'r ymdrech adfer;
- Briffio'r Swyddog Arweiniol a Phwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru;
- Sicrhau bod mewnbwn y DU i'r ymateb yn cael ei gydgysylltu â'r ymdrechion lleol a Chymru gyfan;
- Darparu cymorth cysylltiadau cyfryngau a chymunedol drwy'r Grŵp Strategaeth a Chyfathrebu;
- Cynorthwyo i benderfynu ar ganlyniadau posibl yr argyfwng a chynllunio'r adferiad;
- Hwyluso trefniadau cyd-gymorth yng Nghymru ac, yn ôl y gofyn, rhwng Cymru ac ardaloedd ar y ffin yn Lloegr;
- Codi unrhyw faterion na ellir eu datrys ar lefel leol neu Gymru i lefel y DU.

Pan gaiff GCS ei sefydlu, bydd Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru yn cael eu neilltuo i weithredu fel cyswllt ar wahân rhwng y GCS a'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru), gan hysbysu'r Ganolfan am unrhyw ddatblygiadau heb darfu neu amharu ar yr ymdrech ymateb leol.

Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl a Phwyllgor Argyfyngau Posibl Cymru

Weithiau, pan fo argyfwng posibl sy'n effeithio ar Gymru wedi cael ei nodi, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynnull cyfarfod o'r GCS sy'n cynnwys sefydliadau perthnasol i'r argyfwng i adolygu ac asesu'r sefyllfa ac ystyried yr ymateb gofynnol yng Nghymru. Pan na roddir unrhyw rybudd ymlaen llaw cyn i argyfwng ddigwydd, bydd y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn cael ei sefydlu a'r holl sefydliadau allweddol yn cael eu hysbysu.

Amlinellir y trefniadau ar gyfer sefydlu Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl a Phwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru yng Nghynllun Ymateb Cymru Gyfan (Dolen)

Grŵp Cydgysylltu Adferiad

Gall Grŵp Cydgysylltu Adferiad gael ei sefydlu gan y GCS ar ôl digwyddiad difrifol neu eang er mwyn helpu i gefnogi'r broses adfer. Bydd tîm Llifogydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth am effeithiau a difrod i seilwaith llifogydd ac arfordirol er mwyn cynorthwyo adferiad, hwyluso atgyweiriadau a cheisio cymorth ariannol pan yn briodol.

Ar Draws y Ffin

Os bydd argyfwng llifogydd yn digwydd yn Lloegr ond â goblygiadau trawsffiniol i Gymru, bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar yr agwedd hon yng Nghymru ac yn darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen i lywodraeth y DU, fel y gellir deall effeithiau ac ystyried mesurau lliniaru posibl.

Llywodraeth y DU

Mae Cydsyniad Gweithrediadau'r Llywodraeth Ganolog⁴ yn cyflwyno trefniadau'r DU ar gyfer ymateb i argyfyngau ac adfer ar eu hôl, waeth beth fo'r achos neu'r lleoliad ac yn gofyn am gamau cydgysylltiedig gan lywodraeth ganolog ac yn darparu'r gweithdrefnau gweithredu ar gyfer Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet.

Achub o Lifogydd yng Nghymru

Grŵp Achub o Lifogydd a Dŵr Mewndirol Cymru

Corff a ffurfiwyd er mwyn helpu i hwyluso a dod â sgiliau, arbenigedd a galluoedd sy'n bodoli yng Nghymru ar gyfer achub o ddŵr ynghyd, yw Grŵp Achub o Lifogydd a Dŵr Mewndirol Cymru. Prif nod y grŵp yw datblygu gallu ymateb amlasiantaeth cynaliadwy ar lefelau gweithredol a thactegol ar gyfer argyfyngau dŵr mewndirol a llifogydd.

Sefydlwyd y grŵp yn 2008 yn dilyn cyfres o lifogydd difrifol yn 2007. Ei nod yw achub bywydau, lleihau dioddefaint a helpu cymdeithas i ddychwelyd i normal. Yn ogystal â'r Gwasanaethau Brys (yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Gwasanaethau Ambiwlans), mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, timau Achub Mynydd, Cymdeithas Achub Ardal Hafren, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a'r Awyrlu Brenhinol.

Mae gwaith Grŵp Achub o Lifogydd a Dŵr Cymru wedi datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol ac wedi gwella elfennau cymhwysedd gorchymyn a rheoli ymateb amlasiantaeth i lifogydd trwy hyfforddiant amlasiantaeth.

Cofrestr Asedau Cenedlaethol Cymru

Cedwir y gofrestr asedau gan Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n cynorthwyo defnydd rheolwyr o'r timau priodol agosaf sydd ar gael, gan gynnwys; gweithredwyr badau modur achub o'r dŵr, technegwyr achub o'r dŵr, ymatebwyr cyntaf achub o'r dŵr a rheolwyr digwyddiadau dŵr.

Ymatebion i ddigwyddiadau llifogydd bach neu leol

Bydd ymatebion achub i ddigwyddiadau bach neu leol yn cael eu rheoli ar lefel leol gan wasanaethau brys. Sefydliadau gwasanaethau brys sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad i ddefnyddio timau achub o lifogydd arbenigol a'u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod unrhyw dimau a ddefnyddir yn gymwys.

Gall Cofrestr Asedau Cymru gynnig sicrwydd bod y timau i'w defnyddio wedi cael eu hasesu'n rhagarweiniol yn gymwys i weithio yn yr amgylchedd llifogydd.

⁴https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/192425/CONOPs_incl_revised_chapter_24_Apr-13.pdf

Bydd datblygiad a chyflwyniad Canolfannau Cydgysylltu Strategol ledled Cymru yn cynyddu gallu'r ymatebwyr brys i rannu gwybodaeth allweddol fel y Gofrestr Asedau.



Ffigur 8: Ymateb i lifogydd yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint (Llun gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Achub o Lifogydd – Ymatebion i ddigwyddiadau llifogydd difrifol neu ardal eang

At ddibenion achub o lifogydd, gellir diffinio digwyddiad difrifol neu ardal eang fel unrhyw ddigwyddiad llifogydd sy'n gofyn am gyd-gymorth i dimau achub o lifogydd arbenigol o'r tu allan i ardal y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, neu ddigwyddiad sy'n gofyn am weithrediadau achub o lifogydd helaeth ar yr un pryd yn effeithio ar fwy nag un ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

Er y gall llifogydd sydyn ddigwydd gyda fawr ddim rhybudd, o dan lawer o amgylchiadau, bydd rhybuddion cynnar am ddigwyddiad llifogydd difrifol yn galluogi fframweithiau rheolaeth cadarn i gael eu sefydlu cyn i'r digwyddiad effeithio ar yr ardal leol. Gellir hefyd defnyddio'r rhybudd cynnar hwn i gynnig cyfle i wneud cais cynnar am dimau cyd-gymorth arbenigol a'u lleoli yn yr ardal ymlaen llaw. Ceir nifer o fanteision gweithredol sylweddol o ddefnyddio rhybudd cynnar yn effeithiol, gan leihau risg i gymunedau ac ymatebwyr.

PARATOI/CYNLLUNIO AR GYFER LLIFOGYDD

Cynllunio ar gyfer Argyfwng

Cynllunio ar gyfer argyfwng ar lefel genedlaethol

Mae cynllunio ar gyfer argyfwng ac ymateb i argyfwng yn faes allweddol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a nodir hynny yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru⁵. Mae hyn yn unol â'r cyfarwyddyd presennol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac Ewrop.

Cynllunio llifogydd ar lefel leol

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004⁶ yn ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr Categori 1 gynnal cynlluniau i ymateb i argyfyngau. Dylai'r rhain fanteisio ar asesiadau risg a dylent roi ystyriaeth i'r trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd ar adeg argyfwng.

Mae'n rhaid i ymatebwyr Categori 1 hefyd sicrhau a chynnal:

- gweithdrefn ar gyfer gweithredu'r cynllun;
- darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff allweddol;
- darpariaeth ar gyfer ymarfer y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol; a
- gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei adolygu'n gyfnodol ac yn cael ei gadw'n gyfredol.

Dylai'r gwaith o baratoi cynlluniau gynnwys ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2 (fel y'u diffinnir yn atodiad 2) ochr yn ochr â sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf fel sy'n briodol. Mae'n ofynnol i ymatebwyr Categori 1 roi ystyriaeth i weithgareddau sefydliadau gwirfoddol perthnasol wrth ddatblygu cynlluniau. Mae hefyd yn ddyletswydd statudol ar ymatebwyr Categori 1 i gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer argyfwng, i'r graddau sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol at y diben o ymdrin ag argyfwng.

Cynllunio ar gyfer Argyfwng yng Nghymru

Yn yr un modd â phob argyfwng, mae cydweithrediad rhwng sefydliadau yn hanfodol i gynllunio ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt. Mae angen i nifer fawr o sefydliadau gydweithredu wrth ymateb i lifogydd, ac felly mae'n hanfodol bod sefydliadau yn cydweithio'n agos wrth baratoi a chynllunio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr ymateb i argyfyngau llifogydd yn cael ei gynnal ar lefel leol gan ymatebwyr lleol.

Cynlluniau

Cynlluniau Llifogydd Cymunedol

Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu gan gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd gyda chymorth a chefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau y gallant baratoi ar gyfer digwyddiadau llifogydd, ymateb iddynt ac adfer ar eu hôl. Bydd un neu fwy o wirfoddolwyr o'r gymuned yn gweithio ar lefel leol i sicrhau bod eu cymuned yn ymwybodol o'r perygl o lifogydd, y gall gael mynediad at gyngor a chymorth perthnasol a'i bod yn gwybod beth i'w wneud pan fydd llifogydd yn digwydd, gan nodi bod pob

⁵<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/flooding/nationalstrategy/strategy/?lang=cy>

⁶http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/36/pdfs/ukpga_20040036_en.pdf

cymuned a'i pherygl llifogydd lleol yn wahanol, felly bydd y trefniadau hyn yn amrywio ledled Cymru.

Cynlluniau Ymateb Awdurdodau Lleol

Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, fel ymatebwyr Categori 1, o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, i fod â chynlluniau ar waith sy'n cynnwys asiantaethau eraill ac yn nodi sut y byddant yn ymateb i ddigwyddiadau llifogydd.

Cynllun Llifogydd Amlasiantaeth Fforymau Lleol Cymru Gydnerth

Mae gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gynlluniau ar waith ar gyfer llifogydd ar raddfa fwy, a fyddai'n cael eu defnyddio gan roi Strwythur Aur (Strategol), Arian (Tactegol) ac Efydd (Gweithredol) posibl ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth yn ffigur 4.

Cynllun Ymateb Cymru Gyfan

Pan fydd digwyddiad yn ddigon sylweddol neu mewn ardal ddigon eang, mwy nag un ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth fel rheol ac yn gofyn am sefydlu'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru), mae Cynllun Ymateb Cymru Gyfan yn nodi trefniadau cydgysylltu cenedlaethol. Bydd yr ymateb yn dal i gael ei arwain ar lefel y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, ond mae Cynllun Ymateb Cymru Gyfan yn darparu trefniadau cydgysylltu a chymorth. Bydd y penderfyniad i weithredu Cynllun Ymateb Cymru Gyfan yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU ac ymatebwyr Categori 1 a 2.

Fframwaith Ymateb i Llifogydd Cymru

Fframwaith Ymateb i Llifogydd Cymru yw'r fframwaith cyffredin y mae'r holl gynlluniau hyn yn rhan ohono. Mae'r fframwaith yn dod â'r cyngor, y cyfarwyddyd a'r polisïau allweddol ar ymateb i lifogydd sy'n bodoli ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru ynghyd.

Strategaethau Rheoli Llifogydd Lleol

Er nad ydynt yn gynlluniau ar gyfer argyfwng, mae gan bob awdurdod lleol strategaethau llifogydd sy'n nodi problemau llifogydd cyffredin a allai fod o ddefnydd penodol ar gyfer perygl llifogydd dŵr wyneb (glawog) a pherygl o gyrsiau dŵr cyffredin (nentydd llai).

Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd

Datblygwyd Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i reoli'r perygl o lifogydd o bob ffynhonnell. Maent yn nodi sut y bydd Awdurdodau Rheoli Perygl, ar sail cylch 6 mlynedd, yn rheoli llifogydd fel bod y cymunedau sydd yn y mwyaf o berygl yn elwa fwyaf. Trwy wneud hynny, mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd hefyd yn bwrw ymlaen â'r amcanion a'r gweithredoedd a nodir yn y Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol a Lleol.

Cyfrifoldebau wrth baratoi ar gyfer argyfyngau llifogydd

Grŵp Llifogydd Cymru

Mae Grŵp Llifogydd Cymru (gweler atodiad 1 ar gyfer ei aelodaeth) yn cynnig fforwm i gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac ymatebwyr categori 1 a 2 ystyried materion cydnerthedd llifogydd yng Nghymru. Bydd y grŵp yn cefnogi datblygiad a gweithrediad gwaith i wella cydnerthedd Cymru rhag llifogydd.

Fforymau Lleol Cymru Gydnerth

Mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru yn cynnig strwythur ambarél o ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2, fel y diffinnir yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau sydd â'r potensial o effeithio ar nifer fawr o bobl a/neu effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd yng Nghymru.

Sefydlwyd Grwpiau Tywydd Garw o fewn strwythur Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Mae'r Grwpiau hyn yn ystyried cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd gan gynnwys llifogydd. Mae'r grwpiau hyn a gefnogir gan sawl asiantaeth yn datblygu canllawiau a fframweithiau y caiff perygl llifogydd lleol a chenedlaethol ei gyfathrebu a'i flaenoriaethu ar eu sail, ac a ddefnyddir ar gyfer cynllunio ymateb. Rheolir nifer o ddogfennau gan y Grwpiau Tywydd Garw ar ran y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Y rhain yw'r sail ar gyfer cynlluniau hyfforddi ac ymarfer i brofi ymateb y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ddigwyddiadau llifogydd, ac maent yn plethu â chynlluniau ymateb amlasiantaeth eraill a reolir gan y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Caiff yr holl ddogfennau eu cynnal ac maent ar gael trwy Resilience Direct.

Llywodraeth Cymru – Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd a sicrhau bod Cymru'n barod i ymateb i ddigwyddiad llifogydd yw dau o'r pedwar amcan cyffredin a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am lunio polisi o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac yn gweithio'n agos gydag asiantaethau rheoli risg i gynnig cymorth a chyllid ar gyfer y gwaith hwn.

Llywodraeth Cymru yw'r prif ariannwr o fentrau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol. Rhwng 2010 a 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £280 miliwn ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Llywodraeth Cymru – Cydnerthedd

Mae Tîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru yn arwain ac yn hwyluso ymateb Llywodraeth Cymru i bob argyfwng sifil. Mae'r Tîm yn hwyluso Fforwm Cymru Gydnerth a Thîm Partneriaeth Cymru Gydnerth er mwyn cynnal swyddogaeth gydgyssylltu Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn rheoli gwahanol is-grwpiau Cymru gyfan sy'n ymroddedig i ddatblygu cydnerthedd yng Nghymru.

Y Swyddfa Dywydd

Y Swyddfa Dywydd yw'r ffynhonnell swyddogol o wybodaeth feteorolegol ar gyfer cynllunwyr ac ymatebwyr argyfyngau yn y DU. Trwy allu cydnerthedd 24/7, mae'n cynnig nifer o wasanaethau sy'n helpu awdurdodau i baratoi ar gyfer argyfyngau llifogydd ac ymateb iddynt, a'r Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol yn bennaf.

Gall y Swyddfa Dywydd ddarparu nodiadau briffio ar y sefyllfa feteorolegol i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol gyda Chynghorwyr Argyfyngau Sifil Posibl, wedi'u lleoli yng Nghymru, ar gael i weithio gyda'r gymuned cynllunio ar gyfer argyfwng i:

- Drafod digwyddiadau tywydd garw a ragwelir neu barhaus er mwyn helpu ymatebwyr brys i asesu'r perygl yn eu hardaloedd penodol a rhoi paratodau ar waith i liniaru'r effeithiau;

- Sicrhau bod timau rheoli argyfyngau yn ymwybodol o'r holl ffactorau meteorolegol eraill a allai effeithio ar y digwyddiad a'u heffaith bosibl;
- Cael gafael ar gyngor gwyddonol arall sydd ar gael gan y Swyddfa Dywydd a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y Swyddfa Dywydd a'r ymatebwyr, gan ryddhau adnoddau'r ymatebwyr a'u galluogi i ganolbwyntio ar reoli'r digwyddiad; ac;
- Os yw'n ofynnol ac yn briodol, trefnu rhagolygon mater o drefn a gwybodaeth arall i gael eu cyflenwi i gynorthwyo'r cyfnod adfer;
- Cynorthwyo yn y gwaith o gynllunio a chynnal ymarferion i brofi cynlluniau tywydd garw.

Mae'r Swyddfa Dywydd hefyd yn darparu Rheolwr Peryglon, sy'n wasanaeth am ddim ar y pwynt defnyddio, a gynlluniwyd yn bennaf ar gyfer ymatebwyr Categori 1 a 2 i rybuddio a hysbysu am ddigwyddiadau tywydd a chynorthwyo gwaith timau rheoli digwyddiadau o ran ymdrin ag amrywiaeth o argyfyngau amgylcheddol, gan gynnwys llifogydd. Bwriedir i'r gwasanaeth ategu swyddogaeth Cynghorwyr y Swyddfa Dywydd (Argyfyngau Sifil Posibl) i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau cyson yn ymwneud â thywydd ar gyfer Cymuned Ymateb i Argyfyngau'r DU.

Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol (y Swyddfa Dywydd)

Mae'r Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol, a ddarperir gan y Swyddfa Dywydd, yn rhybuddio'r cyhoedd ac ymatebwyr brys am dywydd garw neu beryglus sydd â'r potensial i achosi perygl i fywyd neu darfu eang trwy ein Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol. Maent yn cyflwyno rhybuddion am law, eira, gwynt, niwl a rhew (gweler atodiad 4, ffigur 7).

Y Ganolfan Darogan Llifogydd

Partneriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Dywydd yw'r Ganolfan Darogan Llifogydd, i ddarogan perygl llifogydd afon, dŵr wyneb, arfordirol a dŵr daear ar lefel awdurdodau sirol/unedol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn darparu'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd (gweler atodiad 4) i lywodraeth ac ymatebwyr brys ledled Cymru a Lloegr i gynorthwyo gyda'r ymateb i effeithiau llifogydd a ragwelir.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Darogan Llifogydd ac yn cyfrannu at y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd, gan gynnwys cytuno'r statws perygl llifogydd ar gyfer siroedd Cymru yn ystod y 5 diwrnod nesaf.

Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn darparu'r canllawiau, y deallusrwydd a'r cymorth hydro-feteorolegol i'r gwasanaeth rhagolygon a rhybuddion llifogydd a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae cynhyrchion a gwasanaethau'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn rhoi mwy o amser i ymatebwyr Categori 1 a 2 gynllunio, paratoi ac ymateb i llifogydd am hyd at bum diwrnod i'r dyfodol. Mae'r cyfnod arweiniol hwn yn helpu i roi mwy o amser i bobl mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd leihau'r risg i'w hunain a'u heiddo.

Gwasanaethau Cynghori ar Llifogydd Cenedlaethol a Lleol

Os bydd Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd y Ganolfan Darogan Llifogydd yn dynodi perygl canolig i uchel o lifogydd, caiff amrywiaeth o Wasanaethau Cynghori ar Llifogydd integredig eu sbarduno ar draws bob lefel o ymateb.

Ar lefel genedlaethol, bydd y Ganolfan Darogan Llifogydd yn asesu ac, os yw'n briodol, sbarduno telegynhadledd Gwasanaeth Cynghori ar Llifogydd Cenedlaethol. Mae hyn yn galluogi'r Ganolfan Darogan Llifogydd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Dywydd rannu gwybodaeth gyda Llywodraethau Cymru a'r DU yn gynnar, a thrafod unrhyw faterion strategol, yn seiliedig ar, ac wedi'u cymell gan ragolygon yn y Datganiadau Cyfarwyddyd Llifogydd a gwybodaeth rhagolygon lleol ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Caiff telegynadledau'r Gwasanaeth Cynghori ar Llifogydd Cenedlaethol eu hymgynnull fel a ganlyn:

- ar sail **ragofalus** i roi eglurder o ran lle mae llifogydd yn bosibl ac mae diddordeb gwleidyddol a'r cyfryngau yn uchel, ac mae sawl lleoliad yn felyn yn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd. Mae'n **ddewisol** pa un a yw cysylltiadau'n bresennol ai peidio.
- ar sail **ffurfiol** lle mae'r sefyllfa'n dynodi bod llifogydd sylweddol yn debygol a bod angen uwchraddio, ac y disgwylir y bydd sawl lleoliad yn felyn, yn ambr neu'n uwch yn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd. Mae'n **orfodol** bod cysylltiadau'n bresennol.

Ar lefel Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, mae swyddogion dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynnull a chadeirio telegynhadledd (neu gyfarfod yn dibynnu ar yr amgylchiadau) Gwasanaeth Cynghori ar Llifogydd Lleol, i drafod y perygl llifogydd i'r siroedd sy'n cael eu heffeithio yng Nghymru gan ddefnyddio gwybodaeth rhagolygon cenedlaethol a lleol. Caiff y telegynadledau hyn eu galw'n gyffredinol pan fydd lefel perygl y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd yn goch, ac maent yn ddewisol pan fydd y lefel yn ambr. Bydd y telegynadledau yn cynnwys aelodau'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gan gynnwys awdurdodau lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Monitro a Darogan Llifogydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhedeg gwasanaeth rhybuddion llifogydd, i helpu'r cyhoedd ac ymatebwyr brys i gymryd camau prydlon ac effeithiol i leihau effaith llifogydd.

Er mwyn cefnogi hyn a'i ymateb gweithredol ei hun, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith monitro amser real o lawiad, lefelau afonydd, lefelau'r môr ac amodau tonnau ac yn gwneud rhagolygon o lifogydd afon ac arfordirol ar raddfa gymunedol gan ddefnyddio modelau darogan lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn feunyddiol i gytuno ar y statws perygl llifogydd yn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd. Caiff gwaith monitro a darogan ei wneud ar sail 24/7 365 diwrnod y flwyddyn gan swyddogion dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ei fod yn cynnig y sail ar gyfer uwchraddio ac ymateb i lifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebwyr eraill yng Nghymru. Defnyddir yr arsylwadau a'r rhagolygon amser real gan swyddogion dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud penderfyniadau am gyflwyno rhybuddion llifogydd i bartneriaid proffesiynol, y cyfryngau a'r cyhoedd.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Lefelau afonydd a'r môr ar y rhyngrwyd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwybodaeth ar y we a dderbyniwyd o'i rwydwaith o orsafoedd monitro ledled Cymru ar lefelau afonydd a'r môr fel bod gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fwy o wybodaeth ac y gallant benderfynu pa gamau i'w cymryd wrth i lefelau'r dŵr newid.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Rhybuddio a Hysbysu

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi rhagolwg perygl llifogydd i'r cyhoedd am hyd at dri diwrnod ymlaen llaw ar ei wefan, ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd. Fersiwn sydd ar gael i'r cyhoedd o'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd a gyhoeddir ar gyfer ymatebwyr Categori 1 a 2 yw hwn. Mae'r rhagolygon perygl llifogydd ar lefel sirol ac yn defnyddio'r rhagolygon hydro-feteorolegol diweddaraf gan y Ganolfan Darogan Llifogydd ynghyd â rhagolygon llifogydd afon ac arfordirol a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol, gwasanaeth am ddim sy'n darparu rhybuddion llifogydd yn uniongyrchol i'r cyhoedd a sefydliadau ymateb dros y ffôn, trwy ffôn symudol, e-bost, neges destun SMS, galwr a ffacs.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth ar gael ar gyfer lleoliadau yng Nghymru sydd mewn perygl uchel o lifogydd afon neu arfordirol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu darparu negeseuon rhybuddio uniongyrchol yn yr ardaloedd neilltuedig, gan ddefnyddio'r codau canlynol:

- Llifogydd – Byddwch yn Barod;
- Rhybudd Llifogydd; a
- Rhybudd Llifogydd Difrifol.

Caiff hysbysiadau Llifogydd – Byddwch yn Barod eu cyhoeddi ar gyfer dalgylchoedd afonydd neu ddarnau o forlin yn gyffredinol, tra bod Rhybuddion Llifogydd a Rhybuddion Llifogydd Difrifol yn cael eu cyhoeddi ar gyfer cymunedau penodol sydd mewn perygl o lifogydd.

Caiff y Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd ei ddiweddarau'n awtomatig bob 15 munud, 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos.

Darperir gwybodaeth hefyd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar ei ap ffôn symudol "Rhybuddion Llifogydd Cymru". Mae gwybodaeth am berygl llifogydd presennol hefyd ar gael drwy'r gwasanaeth **Llinell Rhybuddion Llifogydd** trwy ffonio 0345 988 1188.

Gellir cael gafael ar y rhagolwg perygl llifogydd 3 diwrnod a'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd sy'n dangos rhybuddion llifogydd cyfredol ar gyfer Cymru trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Awdurdodau Lleol

Mae gan Awdurdodau Lleol drefniadau lleol ar waith ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau llifogydd ar raddfa fach a lleol a hwy yw'r ymatebwyr arweiniol yn gyffredinol o ran digwyddiadau lleol. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i wneud gwaith cynllunio amlasiantaeth ar gyfer argyfyngau tywydd garw ar y lefel leol ac ar gyfer sbarduno trefniadau amlasiantaeth mewn ymateb i rybuddion tywydd garw ac asesiadau effaith lleol. Efallai mai Cyfoeth Naturiol Cymru neu ymatebwyr brys fydd yr arweinydd hwn mewn rhai achosion. Mae awdurdodau lleol yn trafod, yn cynllunio ac yn ymarfer ochr yn ochr â'u partneriaid amlasiantaeth er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt wedi paratoi cystal â phosibl i ymateb i lifogydd pe baent yn digwydd.

Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn rhybuddio a hysbysu'r cyhoedd er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer tywydd garw yn ogystal â digwyddiadau eraill a allai effeithio arnynt.



Ffigur 9: Llifogydd yn Nhal-y-bont, Ceredigion, Mehefin 2012 (Llun gan Gyfoeth Naturiol Cymru)

Dŵr Cymru Welsh Water

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn blaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd posibl yn dibynnu ar ddifrifoldeb ac amllder y llifogydd. Mae carthffosydd wedi'u dylunio i ymdopi â'r mwyafrif llethol o stormydd, ond weithiau gall glawiad fod mor drwm ei fod yn gorlethu'r system. Pan fydd hyn yn digwydd, gall carthion orlifo o dyllau caead a thyllau carthffos ac achosi llifogydd i dir a gerddi.

Pan gaiff amodau o'r fath eu rhagweld gan y Swyddfa Dywydd neu Gyfoeth Naturiol Cymru, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn sicrhau y caiff data glawiad eu monitro er mwyn nodi'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio a sicrhau bod criwiau ychwanegol yn barod i ymateb i unrhyw adroddiadau o lifogydd.



Ffigur 10: Effeithiau posibl llifogydd ar wasanaethau cyfleustodau. Llifogydd yng Ngwaith Trin Dŵr Pen-y-bont (ger Tywyn) (Llun gan DCWW)

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymatebwr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnig gallu Cymru gyfan y gellir galw arno yn ystod digwyddiad llifogydd neu ddigwyddiad tywydd eithafol.

Mae gwybodaeth am ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddigwyddiadau, gan gynnwys llifogydd, ar gael ar ei [wefan](#)

Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am barodrwydd lleol a chydnerthedd eu hystâd a'u gweithrediadau.

Offerynnau Defnyddiol i Ymatebwyr a'r Cyhoedd

Mae ymatebwyr wedi datblygu nifer o wahanol offerynnau at eu defnydd eu hunain ac i'r cyhoedd wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau llifogydd ac ymdrin â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau Cyfarwyddyd Llifogydd a gynhrychir gan y Ganolfan Darogan Llifogydd, Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol a Rheolwr Peryglon, a ddarperir gan y Swyddfa Dywydd a gwasanaethau mapio, rhybuddion a hysbysu llifogydd a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhagor o fanylion ac enghreifftiau ar gael yn Atodiad 4.

CYFATHREBU AC ADRODD

Mae cyfathrebu yn ystod digwyddiadau llifogydd, o fewn a rhwng sefydliadau a chyda'r cyhoedd, yn hanfodol i gynorthwyo'r ymateb a lleihau'r effeithiau. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob ymatebwr Categori 1 i gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn seiliedig ar y gred y gall cyhoedd sydd wedi'i hysbysu'n dda ymateb yn well i argyfwng a sicrhau bod effaith yr argyfwng ar y gymuned cyn lleied â phosibl. Mae hyn yn golygu hysbysu'r cyhoedd am risgiau cyn argyfwng, a'u rhybuddio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn ystod argyfwng. Mae'r ddogfen Parodrwydd ar gyfer Argyfwng⁷ yn cynnig canllawiau ar y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, gan gynnwys cyfathrebu â'r cyhoedd.

Mae Grŵp Rhybuddio a Hysbysu Cymru yn cynnig fforwm ar gyfer yr arweinwyr cyfathrebu o wahanol asiantaethau ymatebwyr a Llywodraeth Cymru i ystyried materion cyfathrebu, rhannu arfer gorau a datblygu dull cyson o rybuddio a hysbysu. Mae'r Grŵp wedi datblygu Fframwaith Cyfathrebu Digwyddiadau Difrifol Cymru Gyfan, dogfen ar gyfer ymatebwyr brys sy'n nodi camau a fydd yn sicrhau ymateb amlasiantaeth cydgysylltiedig o ran rhybuddio a hysbysu mewn ymateb i ddigwyddiadau difrifol.

Cyfathrebiad a rhybuddion i'r cyhoedd

Mae'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd tri diwrnod ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru⁸

Cyn unrhyw ddigwyddiad llifogydd posibl, gall y cyhoedd dderbyn hysbysiadau llifogydd - byddwch yn barod a rhybuddion llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru trwy Rybuddion Llifogydd Uniongyrchol⁹ a fydd, ar ôl cofrestru, yn anfon neges dros y ffôn, trwy e-bost, ffacs, neges destun neu ap ffôn symudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall y cyhoedd hefyd dderbyn Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol trwy wefan y Swyddfa Dywydd, ap ffôn symudol Cyfoeth Naturiol Cymru a chyfryngau darlledu. Caiff rhif Rhybuddion Llifogydd ei hysbysebu trwy gyfyngau darlledu hefyd a gall y cyhoedd ffonio'r Llinell Rhybuddion Llifogydd ar 0345 988 1188 am ragor o wybodaeth, gan gynnwys pa un a ydynt mewn perygl, i ymuno â gwasanaeth rhybuddion llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu am gyngor a gwybodaeth gyffredinol am sut i baratoi ar gyfer llifogydd ac ymdopi â hwy. Gall y cyhoedd hefyd gael gwybodaeth trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr hyn i'w wneud yn ystod ac ar ôl digwyddiad llifogydd¹⁰.

Cyfathrebu yn ystod digwyddiad

Bydd cyfathrebu cyn unrhyw ddigwyddiad llifogydd yn cychwyn gyda negeseuon gan y Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd, yn aml drwy'r Gwasanaeth Cyngori ar Llifogydd Cenedlaethol.

⁷ <https://www.gov.uk/guidance/preparation-and-planning-for-emergencies-responsibilities-of-responder-agencies-and-others>

⁸ <http://naturalresources.wales/flooding/check-flood-warnings/?lang=cy>

⁹ <http://naturalresources.wales/flooding/flood-warning-service/?lang=cy>

¹⁰ <http://naturalresources.wales/flooding/what-to-do-during-and-after-a-flood/?lang=cy>

Mae gan yr holl Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gynlluniau rhybuddio a hysbysu amlasiantaeth a threfniadau sbarduno a fydd yn cael eu rhoi ar waith pan fydd digwyddiad difrifol. Yn gyffredinol, caiff cell cyfathrebiad amlasiantaeth ei sefydlu i gysylltu'r holl negeseuon â'i gilydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain gwaith rhybuddio a hysbysu ar gyfer digwyddiadau llifogydd ac mae ganddo gynlluniau cyfathrebu sydd wedi'u hymarfer yn drylwyr ar waith i ymdrin â'r digwyddiadau hyn cyn ac yn ystod digwyddiad.

Adrodd i Lywodraeth Cymru

Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am yr holl faterion sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae angen hysbysu Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru am lifogydd i adeiladau (preswyl a masnachol) a seilwaith pwysig, yn ogystal â'r ymateb/camau lliniaru sydd ar y gweill, fel y gellir cymryd camau'n gyflym ar sail y wybodaeth.

Byddai hyn yn cynnwys llifogydd o unrhyw ffynhonnell a dylai gael ei gyfathrebu gan ba bynnag grŵp ymateb a sefydlwyd yn ogystal â thrwy Adroddiadau Sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn uniongyrchol drwy adroddiadau'r Awdurdod Lleol. Pan geir sawl achos o lifogydd, gellir crynhoi'r manylion amdanynt mewn un ymateb cytûn neu Ddarlun Gweithredu Cyffredin.

Pan fydd llifogydd yn lleol ac yn cael eu rheoli gan un awdurdod, yna dylid darparu gwybodaeth am y sefyllfa a'r effeithiau hysbys i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys adrodd o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Tân ac Achub a/neu gwmnïau cyfleustodau.

Dylai ymatebwyr Categori 1 a 2 hysbysu am ddigwyddiadau llifogydd drwy'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) pan fydd yn weithredol neu, os nad yw, i Dimau Llifogydd a Chydnerthu Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Darperir cyfeiriadau'r blychau negeseuon e-bost perthnasol i bob Awdurdod Rheoli Risg.

Gall y cyhoedd hysbysu am ddigwyddiadau llifogydd trwy awdurdodau lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru trwy ffonio'r Llinell Rhybuddion Llifogydd.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i ymchwilio i lifogydd sy'n effeithio ar eu hardaloedd. Dylid cyhoeddi'r adroddiadau hyn a hysbysu Cangen Llifogydd Llywodraeth Cymru ar ôl eu cwblhau.

ATODIADAU

Atodiad 1: Aelodaeth Grŵp Llifogydd Cymru

Mae'r Aelodaeth Graidd yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru

- Y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth y Grŵp)
- Cangen Gydnerthu

Fforwm Lleol Cymru Gydnerth

- Cadeiryddion Grwpiau Llifogydd/Tywydd Garw Fforymau Lleol Cymru Gydnerth
- Cydgysylltwyr Fforymau Lleol Cymru Gydnerth

Awdurdodau Gweithredol

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Cynllunwyr Argyfwng Awdurdodau Lleol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Swyddfa Dywydd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwasanaethau Brys

- Y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Cynrychiolydd yr Heddlu neu'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys

Gellir gwahodd asiantaethau a sefydliadau eraill ar sail ad hoc yn dibynnu ar destunau'r drafodaeth

Atodiad 2: Ymatebwyr Categori 1 a 2

Ymatebwyr Categori 1:

- Heddluoedd
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Awdurdodau Tân
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd
- Byrddau Iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymatebwyr Categori 2:

- Dosbarthwyr a throsglwyddwyr trydan
- Cwmnïau Gweithredu Trenau
- Gweithredwyr Meysydd Awyr
- Awdurdodau Harbwr
- Gweithredwyr Dŵr a Charthffosiaeth
- Network Rail
- Dosbarthwyr nwy
- Darparwyr Gwasanaethau Ffôn
- Asiant Cefnffyrdd

Atodiad 3: Bwriadau strategol Grwpiau Cydgysylltu Strategol (GCS)

Diogelu Bywydau	
Achub o'r Dŵr	Fel sy'n ofynnol: - Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydgysylltu asedau achub o'r dŵr nid yn unig o'i ardal ei hun, ond o bob cwr o'r DU. - Gall gwasanaethau chwilio ac achub hefyd gael eu darparu gan y sector gwirfoddol, ond bydd angen i'r rhain gael eu cydgysylltu gan y GCS. - Lleoli Swyddog Cyswllt Chwilio ac Achub i gydgyssylltu gwasanaethau 3 Hofrennydd Awyrlu Brenhinol. - Gall weithredu Timau Achub Mynydd i ddarparu cyfathrebiad. - Gall Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ddarparu hofrenyddion chwilio ac achub ac adnoddau i gynorthwyo gweithrediadau.
Pobl Agored i Niwed	- Pan fo'n ofynnol, bydd yr awdurdodau lleol yn cydgysylltu'r gwaith o gasglu gwybodaeth am bobl agored i niwed hysbys yn yr ardal a effeithir ac: - yn gyfrifol am drafod a'r gell cyfryngau er mwyn gwneud trefniadau drwy'r cyfryngau i aelodau'r cyhoedd hysbysu am bobl agored i niwed a'u lleoliad i'r awdurdodau, - yn nodi adeiladau yn yr ardal a effeithir lle ceir nifer fawr o bobl agored i niwed, fel ysbytai/cartrefi gofal. - Bydd angen asesiadau ar lawr gwlad o bobl agored i niwed gan yr asiantaethau ymatebwyr hefyd wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer Arian a'r GCS. - Mae angen cynnwys y sector gwirfoddol yn y gwaith hwn pan fo hynny'n briodol, i ddarparu cymorth fan fo'i angen.
Gwagio Adeiladau	- Bydd gwagio adeiladau'n cael ei ddefnyddio fel dewis olaf gan y GCS. - Cadeirydd y GCS fydd yn gwneud y penderfyniad i wagio adeiladau yn y pen draw, ond bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau partner a chyda'u cytundeb. - Bydd cynllunio gwagio adeiladau a ddefnyddir gan y GCS yn amrywio o un ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru i'r llall, ond bydd yn cynnwys ymgysylltu â gweithredwyr trafndiaeth, ysbytai a chartrefi gofal sy'n derbyn a sefydlu Canolfannau Gorffwys. Bydd angen ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i gefnogi'r gweithrediad mewn llawer o achosion. - Nid oes unrhyw bwerau ar gyfer gwagio gorfodol.
Diogelu Iechyd y Cyhoedd	
Bwyd a Dŵr	- Mae'n ddyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr yng Nghymru i ddarparu o leiaf 10 litr y diwrnod o ddŵr yfed i bob unigolyn yn yr ardal a effeithir. - Os bydd y tarfu ar ddŵr o'r prif gyflenwad yn mynd y tu hwnt i 5 diwrnod ar ôl datgan digwyddiad difrifol, yna mae hyn yn cynyddu i 20 litr yr unigolyn y diwrnod. - Mae gan gwmnïau dŵr eu cynlluniau eu hunain i ddarparu'r dŵr, ond bydd angen iddynt weithredu'r cynlluniau hyn gyda chydweithrediad llawn y GCS. Mae'n hanfodol felly bod y cwmnïau dŵr perthnasol yn rhan annatod o'r GCS
Cyngor Iechyd Cyhoeddus	Bydd ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r cyngor iechyd perthnasol i'r Grŵp Cydgysylltu Strategol (GCS) ar ganlyniadau a chamau gofynnol i'w cymryd yn dilyn y digwyddiad llifogydd. Byddant yn cytuno gyda'r GCS negeseuon iechyd cyhoeddus eglur i'w rhoi i'r cyhoedd, i'r cyfryngau, i ymatebwyr i'r digwyddiad ac i weithwyr iechyd proffesiynol. Byddant hefyd yn trefnu i sefydlu Canolfan Rheoli Argyfwng Iechyd pan fydd angen, er mwyn cynnig cyngor i'r cyhoedd
Cyngor	Yng Nghymru, mae gan Grwpiau Cydgysylltu Strategol (GCS)

Gwyddonol a Thechnegol	drefniadau Cell Cyngor Gwyddonol a Thechnegol. Pan fydd yr angen am gyngor o'r fath yn fwy na'r arbenigedd sydd ar gael, efallai y gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi ffynonellau eraill o gyngor gwyddonol o bob cwr o Gymru neu ymhellach i ffwrdd i gefnogi'r ymateb lleol. Os oes angen, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth gan Lywodraeth y DU trwy Swyddfa'r Cabinet. - Pan fydd mwy nag un GCS yng Nghymru angen cyngor gwyddonol a thechnegol, gellir sefydlu un Gell Cyngor Gwyddonol a Thechnegol i Gymru yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Grŵp neu Grwpiau Cydgysylltu Strategol - Os bydd angen cyngor gwyddonol a thechnegol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru, gall hefyd ofyn i Ystafell Frifio Swyddfa'r Cabinet weithredu a chydgysylltu'r Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau fel bod cyngor gwyddonol a thechnegol y DU ar gael i broses rheoli canlyniadau Llywodraeth Cymru a, thrwy'r broses honno, hefyd ar gael i hysbysu'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol. - Pan fydd GCS angen cyngor gwyddonol a thechnegol ac na ellir dod o hyd i arbenigedd lleol, byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol drafod â Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth er mwyn dod o hyd i gynghorydd priodol. Pan fydd Ystafell Frifio Swyddfa'r Cabinet wedi ei sefydlu hefyd, byddai'r cais yn cael ei wneud drwyddynt hwy
3: Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd	
Cyfyngau	- Bydd yr Heddlu'n arwain y gwaith o ymdrin â'r cyfyngau yn y GCS, gyda chefnogaeth pob asiantaeth. - Cyfrifoldeb y GCS yw sicrhau negeseuon cyson i'r cyfyngau a chynghori cyson i'r cyhoedd. Mae'n rhaid rhannu llinellau a gytunir gyda'r lefelau Arian ac Efydd - Bydd cell gyfyngau amlasiantaeth yn cael ei sefydlu yn y Ganolfan Cydgysylltu Strategol i gydgyssylltu'r gwaith o ymdrin â'r cyfyngau ar draws asiantaethau. Bydd y gell gyfyngau yn ymgysylltu â chell gyfyngau'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) i gydgyssylltu'r gwaith o ymdrin â'r cyfyngau ar lefelau Cymru a'r DU.
4: Cynnal Seilwaith Cenedlaethol Critigol hanfodol	
Seilwaith Cenedlaethol Critigol	- Mae cynnwys cwmnïau cyfleustodau yn y GCS yn hanfodol er mwyn nodi'r bygythiad posibl i'w hasedau yn yr ardal a effeithir a chanlyniadau'r asedau hyn i'r seilwaith cenedlaethol critigol. - Bydd rheolwyr y GCS angen gwybod ar frys am holl asedau Seilwaith Cenedlaethol Critigol a pha gamau y bydd eu hangen i'w diogelu.
5: Hwyluso Adferiad	
	Bydd y GCS yn sefydlu Grŵp Cydgysylltu'r Adferiad o dan arweiniad yr awdurdodau lleol sydd wedi eu heffeithio fwyaf cyn gynted â phosibl. Bydd y Grŵp Cydgysylltu'r Adferiad yn: - gyfrifol am asesu effaith y llifogydd, gan gynnwys ar gartrefi, busnesau, yr economi, lles a seilwaith a chynllunio o gam cynnar y dychweliad i'r 'normalrwydd newydd'. - cynnwys cwmnïau cyfleustodau er mwy ystyried eu dull o adfer gwasanaethau hanfodol. - cynnwys gweithredwyr ffyrdd a rheilffyrdd er mwyn helpu i adfer y seilwaith trafniadaeth pan fo angen gwneud hyn. - cynnwys cynrychiolydd o Gymdeithas Yswirwyr Prydain er mwyn helpu i hwyluso gwaith cwmnïau yswiriant yn y cyfnod adfer.

Atodiad 4: Offerynnau defnyddiol i ymatebwyr

Datblygwyd nifer o ddulliau i gael eu defnyddio gan ymatebwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau llifogydd, gan gynnwys:

- Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd wedi ei gynhyrchu gan y Ganolfan Darogan Llifogydd ar gyfer ymatebwyr (fersiwn gyhoeddus ar gael o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru);
- Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol (ar gael i'r cyhoedd ac ymatebwyr) a Rheolwr Peryglon (ar gael i ymatebwyr), wedi'i ddarparu gan y Swyddfa Dywydd;
- Gwasanaethau rhybuddion a hysbysu am lifogydd, wedi'u darparu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys mapiau perygl llifogydd, rhagolwg perygl llifogydd 3 diwrnod, y Llinell Rhybuddion Llifogydd a data agored).



Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol

Darperir y Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol¹¹ gan y Swyddfa Dywydd i roi rhybuddion i'r cyhoedd ac ymatebwyr brys am dywydd garw neu beryglus a allai achosi tarfu eang. Cyflwynir rhybuddion ar gyfer glaw, eira, gwynt, niwl a rhew a rhoddir lliw iddynt yn dibynnu ar gyfuniad o'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd a'r effaith y gallai ei chael. Er nad yw hyn yn rhybuddio am lifogydd yn benodol, mae'n cynnwys glaw a gwynt a allai arwain at lifogydd. Ceir rhagor o fanylion am Rybuddion y Swyddfa Dywydd ar ei gwefan drwy'r fideo hyfforddi:

<http://www.metoffice.gov.uk/publicsector/hazardmanager/help-centre>



National Severe Weather Warning Service



Chief Forecasters Assessment

A warm and humid airmass covers southern Britain at present. This is already becoming increasingly unstable and producing a few thunderstorms through Thursday, but these are expected to become more widespread overnight into Friday and extend further north into the Midlands and Wales.

Many place will miss the worst of these - some may stay dry - but where they do occur, 20-30 mm rain may fall in a short time, leading to some surface water flooding, whilst lightning and hail may be additional hazards.

The Met Office have issued a Yellow Warning of Rain

Valid from 00:15 on Fri, 19th Sep 2014 until 23:45 on Fri, 19th Sep 2014

Heavy showers and thunderstorms are likely to spread from the south across some southern and western parts of England, and also Wales, on Thursday night - the risk then continuing through much of Friday. Many places will miss these but the public should be aware of the potential for isolated disruption due to surface water flooding, lightning strikes and hail.

Ffigur 11: Rhybuddion a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol

¹¹<http://www.metoffice.gov.uk/public/weather/warnings/#?tab=warnings&map=Warnings&zoom=5&lon=-3.50&lat=55.50&fcTime=1468450800>

Rheolwr Peryglon

Mae'r Swyddfa Dywydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau drwy'r Rheolwr Peryglon, sydd ar gael i ymatebwyr categori 1 a 2, ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer argyfyngau a achosir neu a ddylanwadir gan y tywydd, ac ymateb iddynt.

Mae'r Rheolwr Peryglon yn darparu ffynhonnell wybodaeth un stop ar gyfer yr ymatebwyr brys. Porth gwe rhyngweithiol yw hon sy'n defnyddio mapiau y gellir gosod gwybodaeth am y tywydd arnynt.

Bwriedir i'r Rheolwr Peryglon ategu swyddogaeth Cyngorwyr Argyfyngau Sifil Posibl i ddarparu gwybodaeth a dehongliadau cyson yn ymwneud â'r tywydd i gymuned Ymateb i Argyfyngau y DU. Mae gan y Swyddfa Dywydd dîm o [Gynghorwyr Argyfyngau Sifil Posibl](#) rhanbarthol y gellir galw arnynt i gynnig cyngor ar lefel canolfan gorchymyn a rheoli strategol.

Gall ymatebwyr brys gofrestru ar gyfer Rheolwr Peryglon trwy wefan y Swyddfa Dywydd.

Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd

Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn darparu'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd i'r llywodraeth ac ymatebwyr Categori 1 a 2 yng Nghymru a Lloegr i'w cynorthwyo i gynllunio a pharatoi ar gyfer llifogydd.


Asesiad dyddiol o berygl llifogydd yw'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd, i gynorthwyo ymatebwyr brys Categori 1 a 2 gyda'u penderfyniadau cynllunio ac adnoddau. Mae'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd yn cyflwyno trosolwg pum diwrnod o berygl llifogydd o afonydd, dŵr wyneb, yr arfordir neu ddŵr daear ar lefel awdurdod sirol/unedol yng Nghymru a Lloegr.

FLOODFORECASTINGCENTRE

a working partnership between  Environment Agency  MetOffice

Flood Guidance Statement 10:30hrs Friday 03 January 2014

Our assessment of daily flood risk for England and Wales, working with flood forecasting teams in the Environment Agency and Natural Resources Wales, is below.



There is a **HIGH** coastal flood risk for today in Devon, Cornwall, Dorset and Gloucestershire, Newport, Flintshire, Denbigshire, Gwynedd and Ceredigion with a high likelihood of severe coastal impacts, and a **MEDIUM** coastal flood risk in coastal parts of Monmouthshire today, with a low likelihood of severe coastal impacts, and a **MEDIUM** coastal flood risk in other coastal parts of Wales and south and west England today, this continues into the early hours of tomorrow along the coast of North Wales. There are also other low flood risks at times

Ffigur 12: Enghreifftiau o Ddatganiad Cyfarwyddyd Llifogydd a luniwyd ym mis Ionawr 2014 gan y Ganolfan Darogan Llifogydd

Gan ddefnyddio'r asesiadau a gasglwyd gan dimau rhagolygon llifogydd lleol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd yn nodi sefyllfaoedd sy'n datblygu a allai achosi llifogydd, sy'n bygwth cymunedau, bywydau a bywoliaeth. Mae'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd yn cyflwyno'r ddealltwriaeth gyfunol orau o berygl yn seiliedig ar ragolygon tywydd, rhagolygon llifogydd, amodau dalgylchoedd a statws gweithredol amddiffynfeydd rhag llifogydd.


Caiff y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ei gyflwyno fel mater o drefn gan y Ganolfan Darogan Llifogydd am 10:30 bob dydd, er ei fod hefyd yn cael ei gyhoeddi ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos wrth i'r perygl llifogydd newid. Gall ymatebwyr brys gofrestru i dderbyn Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ar gyfer y lefel risg a'r ardal ddaearyddol benodol sydd eu hangen arnynt. Mae canllaw i ddefnyddwyr yn helpu ymatebwyr i ddehongli'r wybodaeth a'i rhoi mewn cyd-destun. Os hoffech gofrestru i dderbyn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd neu os hoffech ragor o wybodaeth am y Ganolfan Darogan Llifogydd, ewch i:

<http://www.ffc-environment-agency.metoffice.gov.uk/>

Gall y cyhoedd weld y datganiad cyfarwyddyd llifogydd tri diwrnod trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <http://naturalresources.wales/flooding/check-flood-warnings/?lang=cy>

Mae'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd yn cynnwys matrices perygl llifogydd yn dangos asesiad o'r tebygolrwydd y bydd llifogydd yn digwydd yn erbyn effeithiau posibl y llifogydd hynny, gan neilltuo lliw a mynegai perygl. Mae hyn yn adlewyrchu lliw pum map dyddiol y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ar gyfer Cymru a Lloegr.

Ceir rhagor o fanylion am y datganiad cyfarwyddyd llifogydd yn y canllaw i ddefnyddwyr y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd sydd ar gael o wefan y Ganolfan Darogan Llifogydd: <http://www.ffc-environment-agency.metoffice.gov.uk/services/guidance.html>



Ffigur 13: Matrics Perygl Llifogydd

Mae'r tabl isod yn dangos enghreifftiau nodweddiadol o'r effeithiau i'w disgwyl yn sgil llifogydd yn unol â'r pedair colofn sydd wedi'u cynnwys yn y matrices perygl llifogydd

Flood Impacts Table			
Minimal Impacts	Minor Impacts	Significant Impacts	Severe Impacts
- Generally no impact, however there may still be - Isolated and minor flooding of low-lying land and roads - Isolated instances of spray/wave overtopping on coastal promenades - Little or no disruption to travel although wet road surfaces could lead to difficult driving conditions	- Localised flooding of land and roads – risk of aquaplaning - Localised flooding could affect individual properties - Individual properties in coastal locations affected by spray and/or wave overtopping - Localised disruption to key sites identified in flood plans (e.g. railways, utilities) - Local disruption to travel – longer journey times	- Flooding affecting properties and parts of communities - Damage to buildings/structures is possible - Possible danger to life due to fast flowing/deep water/ wave overtopping/ wave inundation - Disruption to key sites identified in flood plans (e.g. railways, utilities, hospitals) - Disruption to travel is expected. A number of roads are likely to be closed	- Widespread flooding affecting significant numbers of properties and whole communities - Collapse of buildings/structures is possible - Danger to life due to fast flowing/ deep water/ wave overtopping/ wave inundation - Widespread disruption or loss of infrastructure identified in flood plans (e.g. railways, utilities, hospitals) - Large scale evacuation of properties may be required - Severe disruption to travel. Risk of motorists becoming stranded

Ffigur 14: Effeithiau o lifogydd fel y nodwyd yn y Matrics Perygl Llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru – Codau Rhybuddion Llifogydd

	Neges Allweddol	Amseru	Camau Gweithredu	Sianeli
Rhagolwg llifogydd 5 diwrnod ar-lein	Byddwch yn ymwybodol Cadwch lygad ar sefyllfa'r tywydd	Yn cael ei ddiweddarau am 10.30am bob dydd fel rheol – yn amlach pan fo'r perygl yn ganolog neu'n uchel	- Gwirio amodau'r tywydd. - Gwirio am ragolygon llifogydd cyfredol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru	- Rhyngwrwyd - Cyfryngau
 FLOOD ALERT	Mae llifogydd yn bosibl Byddwch yn barod	Dwy awr i ddau ddiwrnod ymlaen llaw	- Adolygu gwybodaeth a ddarperir ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Llinell Rhybuddion Llifogydd. - Byddwch yn barod am lifogydd - Paratowch becyn llifogydd o eitemau hanfodol - Monitro lefelau'r dŵr a'r	- Gwasanaeth Rhybuddion Cyfoeth Naturiol Cymru - Llinell Rhybuddion Llifogydd - Rhyngwrwyd

			rhagolygon llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru	
 FLOOD WARNING	Disgwylir llifogydd Mae angen gweithredu ar unwaith	Hanner awr i un diwrnod cyn y llifogydd	• Adolygu gwybodaeth a ddarperir ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Llinell Rhybuddion Llifogydd. • Bydd ymatebwyr yn trafod â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagolygon llifogydd • Symud teulu, anifeiliaid anwes ac eitemau gwerthfawr i fan diogel • Diffodd cyflenwadau nwy, trydan a dŵr os yw'n ddiogel i wneud hynny • Ystyried gosod offer amddiffyn rhag llifogydd	• Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru • Llinell Rhybuddion Llifogydd • Rhyngrwyd • Cyfryngau
 SEVERE FLOOD WARNING	Llifogydd difrifol Perygl i fywyd	Pan ddisgwylir i lifogydd fod yn eang neu beri bygythiad sylweddol i fywyd ac y mae angen gwahanol gamau gweithredu. Mae'r amser arweiniol yn debygol o fod yn brin a gallai hefyd gael ei gyflwyno ar ôl i'r llifogydd ddechrau	• Adolygu gwybodaeth a ddarperir ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Llinell Rhybuddion Llifogydd. • Bydd ymatebwyr yn trafod â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagolygon llifogydd • Aros mewn man diogel sydd â ffordd o ddianc • Byddwch yn barod rhag ofn y bydd angen i chi adael eich cartref • Cydweithredwch gyda'r gwasanaethau	• Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru • Llinell Rhybuddion Llifogydd • Rhyngrwyd • Cyfryngau

			brys Ffoniwch 999 os byddwch mewn perygl uniongyrchol	
	Ni ddisgwylir rhagor o lifogydd yn eich ardal ar hyn o bryd	Cyhoeddir hyn pan nad yw rhybudd llifogydd difrifol/ rhybudd llifogydd/ hysbysiad llifogydd – byddwch yn barod ar waith mwyach	- Efallai y bydd dŵr llifogydd i'w gael o hyd a gallai fod yn halogedig - Os byddwch wedi dioddef llifogydd, ffoniwch eich cwmni yswiriant adeiladau a chynnwys cyn gynted â phosibl	- Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol - Llinell Rhybuddion Llifogydd - Rhynggrwyd

Ffigur 15: Negeseuon a chamau allweddol i ymatebwyr a'r cyhoedd yn gysylltiedig â hysbysiad llifogydd - byddwch yn barod/rhybuddion llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol: Dyma'r system a ddefnyddir i brosesu'r rhybuddion, lle gall cwsmeriaid gofrestru i dderbyn rhybuddion a lle caiff meysydd gwasanaeth eu hamlinellu. Mae Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol yn cynnig gwasanaeth am ddim sy'n anfon negeseuon uniongyrchol pan ddisgwylir llifogydd a allai effeithio ar adeilad er mwyn rhoi amser i baratoi. Gellir anfon y neges hon dros y ffôn, trwy ffôn symudol, e-bost, neges destun, ffacs neu drwy ap ffôn symudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae manylion cofrestru ar gael trwy ffonio Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol ar 0345 988 1188 neu ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<https://www.naturalresources.wales/flooding/flood-warning-service/?lang=cy>

Y Llinell Rhybuddion Llifogydd yw'r porth cyfathrebu i bobl sydd eisiau cofrestru am rybuddion eu hunain ac i gael rhagor o wybodaeth am rybuddion sydd ar waith. Gwasanaeth ffôn canolog yw hwn lle gellir cysylltu ymholwyr â swyddfeydd lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Negeseuon a Graddfeydd

Mae ffigur 12 isod yn dangos ar ba raddfa y cyhoeddir rhybuddion llifogydd

CAMAU	Cam ymwybyddiaeth codi	Llifogydd – Byddwch yn Barod 	Rhybudd Llifogydd 	Rhybudd Llifogydd Difrifol 	Cam rhybudd ddim ar waith mwyach
GRADDFA	Sir 	Dalgylch 	Cymuned 	Cymuned 	Cymuned /Dalgylch 
NEGESEUON	Mae Rhagolwg Llifogydd Pum Diwrnod ar gael trwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.	- Cyhoeddi hysbysiad Llifogydd – Byddwch yn Barod - Diweddarau'r Llinell Rhybuddion Llifogydd a'r Rhynggrwyd	- Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd - Diweddarau'r Llinell Rhybuddion Llifogydd a'r Rhynggrwyd - Diweddarau Rhybudd Llifogydd	- Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol - Diweddarau'r Llinell Rhybuddion Llifogydd a'r Rhynggrwyd	- Diddymu Rhybudd Llifogydd Difrifol - Diddymu Rhybudd Llifogydd - Diddymu'r hysbysiad Llifogydd – Byddwch yn Barod (a gyhoeddwyd i Ymatebwyr yn unig)
SYSTEM	Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru	Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol	Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol	Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol	Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol

Ffigur 16: System rhybuddion llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru – Mapiau Perygl Llifogydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu mapiau perygl llifogydd ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ac yn dangos perygl o briaf afonydd, cyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb, cronfeydd dŵr a'r môr.

Gellir defnyddio'r mapiau hyn ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod y rhai sydd mewn perygl yn ymwybodol o'r perygl ac yn barod i ymateb fel sy'n ofynnol.

Mae'r mapiau hyn ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy>

Cyfoeth Naturiol Cymru – Lefelau afonydd a'r môr ar y rhynggrwyd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwybodaeth ar y we a dderbyniwyd o'i rwydwaith o orsafoedd monitro ledled Cymru ar lefelau afonydd a'r môr fel bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn cael eu hysbysu'n well ac yn gallu penderfynu pa gamau i'w cymryd wrth i'r lefelau dŵr newid.

Mae'r data hyn ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Evch i: <http://naturalresources.wales/flooding/check-flood-warnings/?lang=cy>

Atodiad 5: Rhestr termau

Achub	Symud, o fan peryglus i fan o ddiogelwch cymharol, unigolion sydd wedi'u bygwth neu wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan ddigwyddiad, argyfwng neu drychineb.
Adfer	Y broses o ailadeiladu, adfer ac ailsefydlu'r gymuned yn dilyn argyfwng neu drychineb, sy'n parhau tan fydd y tarfu wedi cael ei ddatrys, y bydd gofynion ar wasanaethau wedi dychwelyd i lefelau normal, ac y bydd anghenion y rhai a effeithiwyd wedi cael eu bodloni.
Adran Llywodraeth Arweiniol	Adran llywodraeth y Deyrnas Unedig neu weinyddiaeth ddatganoledig y neilltuwyd ei bod yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol ymateb y llywodraeth i argyfwng neu drychineb.
Adroddiad Sefyllfa	Adroddiad a gynhyrchir gan swyddog neu gorff yn amlinellu sefyllfa bresennol a datblygiad posibl digwyddiad a'r ymateb iddo.
Allrwyd Cydnerthedd Cenedlaethol	Seilwaith diogel ar y we i hwyluso rhannu gwybodaeth amlasiantaeth ac sydd â swyddogaeth wybodaeth bwysig yn ystod ymateb i argyfwng a gwaith adfer ar ei ôl.
Amlasiantaeth	Yn cynnwys cyfranogiad sawl asiantaeth Sylwer: fe'i defnyddir yn gydgyfnewidiol â rhyngasiantaeth neu gyd-asiantaeth yn aml.
Argyfwng	Digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn man yn y DU, amgylchedd man yn y DU, neu ddiogelwch y DU neu fan yn y DU.
Argyfwng Posibl	Argyfwng neu risg posibl yn y dyfodol y mae'n rhaid paratoi ar ei gyfer. Gweler argyfyngau sifil posibl hefyd.
Argyfyngau Sifil Posibl	Peryglon i iechyd, diogelwch ac adeiladau sifiliaid o argyfyngau fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004).
Arian (Gorchymyn)	Yr haen dactegol o orchymyn a rheoli o fewn asiantaeth sengl (islaw lefel Aur ac uwchlaw lefel Efydd) y rheolir yr ymateb i argyfwng arni. Sylwer: caiff cydgysylltu amlasiantaeth ar y lefel dactegol ei gyflawni gan y Grŵp Cydgysylltu Tactegol.
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau	Asiantaeth weithredol yr adran drafnidiaeth, yn cynnwys Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi a'r Asiantaeth Diogelwch Morol gynt.
Aur (Gorchymyn)	Lefel strategol gorchymyn a rheoli (uwchlaw lefel Arian a lefel Efydd) y mae polisi, strategaeth a'r fframwaith ymateb cyffredinol yn cael eu sefydlu a'u rheoli arni ar gyfer asiantaethau ymatebwyr unigol. Sylwer: gellir cyfeirio at y Grŵp Cydgysylltu Strategol, y corff cydgysylltu strategol amlasiantaeth, yn llafar fel y Grŵp Aur, ond nid fel Aur yn unig.
Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru)	Canolfan Llywodraeth Cymru sy'n cydgysylltu ymateb amlasiantaeth i argyfwng ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng Ystafelloedd Briffio'r lefel leol a Swyddfa'r Cabinet.

Canolfan Cydgysylltu Strategol	Y lleoliad lle mae'r Grŵp Cydgysylltu Strategol yn cyfarfod.
Cell Cyngor Gwyddonol a Thechnegol	Grŵp o arbenigwyr technegol o'r asiantaethau hynny sy'n cymryd rhan mewn ymateb i argyfwng a all ddarparu cyngor gwyddonol a thechnegol i gadeirydd y grŵp cydgysylltu strategol neu gomander aur gwasanaeth sengl.
Chwilio ac Achub	Defnydd o bersonél ac offer arbenigol i ddod o hyd i unigolion mewn trallod neu berygl a'u symud o fan lle ceir perygl gwirioneddol neu bosibl i fan o ddiogelwch cymharol.
Comander sector	Swyddog gwasanaethau brys sy'n rheoli sector sy'n gyfrifol am reolaeth dactegol a diogelwch rhan o ddigwyddiad a nodwyd yn eglur.
Cydgysylltu	Integreiddio ymdrechion amlasiantaeth a galluoedd sydd ar gael, a allai fod yn rhyngddibynnol, er mwyn cyflawni amcanion a ddiffiniwyd.
Cydnerthedd	Gallu'r gymuned, gwasanaethau, ardal neu seilwaith i ganfod, atal ac, os oes angen, wrthsefyll, ymdopi ac adfer yn sgil heriau trafferthus.
Cyfleustod	Cwmni sy'n darparu gwasanaeth cymunedol hanfodol, a dŵr, ynni neu delathrebu yn arbennig.
Cynllun argyfwng penodol	Cynllun gan un neu fwy o ymatebwyr categori 1 sy'n ymwneud â pherygl penodol na roddwyd sylw priodol iddo yn y cynllun argyfwng cyffredinol.
Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl	Caiff darpariaethau amddiffyn sifil eu gwneud ar gyfer paratoi a chynllunio ymateb i argyfyngau, ac adfer ar eu hôl, fel y diffinnir yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl (2005).
Darlun Gwybodaeth Cydnabyddedig Cyffredin	Trosolwg sengl, awdurdodol o argyfwng, wedi'i ddatblygu yn unol â thempled safonol. O fewn Ystafell Frifio Swyddfa'r Cabinet, caiff y Darlun Gwybodaeth Cydnabyddedig Cyffredin ei lunio a'i gynnal gan y Gell Sefyllfa Ganolog fel rheol, a'i ddosbarthu i ymatebwyr pan fo hynny'n berthnasol.
Digwyddiad	Digwyddiad neu sefyllfa sy'n gofyn am ymateb gan y gwasanaethau brys neu ymatebwyr eraill. Sylwer: mae argyfwng (neu ddigwyddiad difrifol) yn cyfeirio at fath penodol o ddigwyddiad sy'n gofyn am leoliad gan un neu fwy o ymatebwyr categori 1.
Efydd (Gorchymyn)	Lefel weithredol gorchymyn a rheoli (islaw lefelau Arian ac Aur) sy'n rheoli'r ymateb i ddigwyddiad ar safle(oedd) y digwyddiad neu fannau cysylltiedig.

Fforwm Argyfwng Cyfryngau Cymru	Grŵp ad hoc o uwch olygyddion o'r cyfryngau, cynrychiolwyr llywodraeth, cynllunwyr argyfwng awdurdodau lleol y Fforwm Argyfwng, gwasanaethau brys, yr heddlu a'r sector preifat yng Nghymru a sefydlwyd i ystyried y ddarpariaeth o wybodaeth i'r cyhoedd, a materion eraill yn ymwneud â'r cyfryngau, yng nghyd-destun argyfyngau sifil.
Fforwm Cymru Gydnerth	Mae Fforwm Cymru Gydnerth yn hybu cyfathrebiad da ac yn cynyddu cynerthedd ar draws asiantaethau a gwasanaethau yng Nghymru. Caiff hyn ei wneud trwy ddarparu fforwm i Brif Swyddogion drafod materion strategol o barodrwydd ar gyfer argyfwng gyda Gweinidogion Cymru.
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth	Proses ar gyfer dod â'r holl ymatebwyr categori 1 a 2 o fewn ardal heddlu ynghyd at y diben o hwyluso cydweithrediad wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.
Grŵp Cydgysylltu Strategol (SCG)	Corff amlasiantaeth sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r ymateb ar y cyd i argyfwng ar y lefel strategol leol. Cyfeirir ato fel y Grŵp Aur weithiau.
Grŵp cydgysylltu tactegol	Grŵp amlasiantaeth o gomanderiaid tactegol sy'n cyfarfod i bennu, cydgysylltu a darparu'r ymateb tactegol i argyfwng.
Grŵp Cynghori Gwyddonol mewn Argyfyngau	Grŵp o arbenigwyr gwyddonol a thechnegol a sefydlir i ddarparu ffynhonnell gyffredin o gyngor i hysbysu penderfyniadau a wneir yn ystod ymateb llywodraeth ganolog i argyfwng.
Grŵp Llifogydd Cymru	Is-grŵp Fforwm Cymru Gydnerth. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau allweddol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rhybuddio am lifogydd, ymateb iddynt ac adfer ar eu hól ledled Cymru (gweler yr aelodaeth yn Atodiad 3). Un o swyddogaethau allweddol y Grŵp yw casglu, cefnogi, monitro a chyfathrebu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid sy'n ymwneud â materion cydnerthedd llifogydd yng Nghymru; mae llawer ohonynt yn aelodau o'r grŵp i wella cynllunio ar gyfer argyfwng a'r ymateb i lifogydd.
Gwasanaethau Brys	Term cyffredinol ar gyfer yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, asiantaethau iechyd; gallant hefyd gynnwys Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi ac ymatebwyr eraill.

Gweithredol	Diffiniad cyffredinol – yn ymwneud â chamau a gymerir gan wasanaeth brys mewn ymateb i ddiffiniad Penodol i ddigwyddiad – y lefel (islaw'r lefel dactegol) pan gaiff gwaith 'ymarferol' ei reoli ar safle(oedd) y digwyddiad neu fannau cysylltiedig, yn cyfateb i lefel Efydd ar gyfer asiantaethau sengl. Nodiadau: 1 caiff y termau Efydd a gweithredol eu defnyddio'n gydgyfnewidiol yn aml. 2 caiff gweithredol a thactegol eu defnyddio'r ffordd arall yn filwrol.
Gwirfoddol	(Asiantaeth neu weithgarwch) anllywodraethol a dielw, neu elusennol.
Lleol	(Yn hytrach na chenedlaethol neu ranbarthol) yn ymwneud ag ardal gyfyngedig o gyffiniau uniongyrchol.
Parodrwydd	Y broses o baratoi i ymdrin â pheryglon hysbys a digwyddiadau neu sefyllfaoedd na ragwelwyd sydd â'r potensial o arwain at argyfwng.
Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru	Grŵp amlasiantaeth, yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, ac eraill fel sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, sy'n cael ei ymgynnull yn ôl y gofyn i gydgyssylltu grwpiau cydgysylltu strategol lluosog ledled Cymru, er mwyn gwella cydgysylltiad yr ymateb i argyfwng, gyda phwyslais penodol ar reoli canlyniadau a'r cyfnod adfer.
Rhaglen Rhyngweithredu ar y Cyd y Gwasanaethau Brys	Fe'i sefydlwyd i wella'r ffordd y mae'r gwasanaethau Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlansys yn gweithio gyda'i gilydd wrth ymateb i ddigwyddiadau amlasiantaeth difrifol.
Rheoli risg	Yr holl weithgareddau a strwythurau sydd wedi'u cyfeirio at asesu a rheoli risgiau'n effeithiol a'u heffeithiau andwyol posibl.
Risg	Mesur arwyddocâd argyfwng posibl o ran tebygolrwydd ac effaith.
Sector	Maes o gyfrifoldeb mewn digwyddiad. Dylid creu'r rhain i reoli cwmpasau rheolaeth ac i gynnig goruchwyliaeth dynnach o weithrediadau. Sectorau gweithredol yw'r rhai sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r digwyddiad, a diffinnir sectorau cymorth gan y swyddogaeth y maent yn eu cyflawni fel rheol.
Sector Gwirfoddol	Pob sefydliad gwirfoddol, a ystyrir fel grŵp, sy'n cymryd rhan mewn unrhyw agweddau ar yr ymateb i argyfwng. Fe'i hadnabyddir fel y trydydd sector hefyd.
Strategol (gorchymyn/lefel)	Y lefel (uwchlaw'r lefel dactegol a'r lefel weithredol) y caiff polisi, strategaeth a'r fframwaith ymateb cyffredinol eu sefydlu a'u rheoli arni.

Tactegol (gorchymyn/lefel)	Grŵp amlasiantaeth a sefydlir gan yr Heddlu priodol i gydgyssylltu ymateb i reolaeth argyfwng. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod camau a gymerir ar lefel weithrediadau wedi'u cydgysylltu, yn gydlynol ac yn integredig. Cyfeirir ato fel y Grŵp Arian weithiau. Nodiadau: 1 Caiff y termau Tactegol ac Arian eu defnyddio'n gydgyfnewidiol yn aml ar gyfer gweithrediadau asiantaeth sengl. 2 Caiff tactegol a gweithredol eu defnyddio'r ffordd arall yn filwrol.
Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)	Deddf o 2004 a sefydlodd fframwaith sengl ar gyfer Amddiffyn Sifil yn y Deyrnas Unedig. Mae Rhan 1 y Ddeddf yn sefydlu cyfres eglur o swyddogaethau a chyfrifoldebau i Ymatebwyr Lleol; mae Rhan 2 y Ddeddf yn sefydlu pwerau brys.
Ymarfer	Efelychiad i ddilysu cynllun argyfwng neu gynllun parhad busnes, i ymarfer staff allweddol neu brofi systemau a gweithdrefnau.
Ymateb	Penderfyniadau a wneir a chomau a gymerir yn unol â'r amcanion strategol, tactegol a gweithredol a ddiffinnir gan ymatebwyr brys. Ar lefel uchel, diben y rhain fydd diogelu bywyd, atal a lliniaru effeithiau'r argyfwng a chreu'r amodau ar gyfer dychwelyd i normalrwydd. Gweler parodrwydd ac adfer hefyd.
Ymatebwr	Sefydliad y mae'n ofynnol iddo gynllunio a pharatoi ymateb i argyfwng. Gweler ymatebwr categori 1 a 2.
Ymatebwr Categori 1	Unigolyn neu gorff a restrir yn rhan 1 yr atodlen i'r ddeddf argyfyngau sifil posibl, sydd fel rheol wrth graidd yr ymateb i argyfwng. Gweler ymatebwr hefyd.
Ymatebwr Categori 2	Unigolyn neu gorff a restrir yn rhan 3 atodlen 1 i'r ddeddf argyfyngau sifil posibl, sy'n llai tebygol o fod wrth graidd yr ymateb i argyfwng, ond yn cydweithredu ag ymatebwyr Categori 1. Gweler ymatebwr hefyd.

Atodiad 6: Lefelau Ymateb Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru Gyfan

